

## CBAC TAG UG/SAFON UWCH mewn IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# CANLLAW ADDYSGU

I'w haddysgu o 2020  
UG i'w ddyfarnu o 2021  
Safon Uwch i'w dyfarnu o 2022

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad	2
2. Nodau'r Canllawiau Addysgu	4
3. Trosolwg o amcanion asesu'r fanyleb	5
4. Rhaglen astudio	11
5. Canllawiau unedau	18
6. ASESAD DI-ARHOLIAD	84
7. Arholiad ysgrifenedig	100
8. Adnoddau*	101
9. Rhestr termau	103

\*Nodwch y bydd adnoddau ychwanegol ar gael yn rheolaidd felly cyfeiriwch at wefan HCLW i gael diweddariadau.

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae cymhwyster TAG UG a Safon Uwch CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020, ar gael i:

- ysgolion uwchradd
- ysgolion ôl-16
- darparwyr/ colegau addysg bellach.

Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2022.

Amlinellir y set gyflawn o ofynion yn y fanyleb sydd ar gael ar wefan y Consortiwm, <https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/>

Prif nodau'r Canllawiau Addysgu yw rhoi cefnogaeth i ddarlithwyr ac athrawon gyflwyno manyleb TAR UG a Safon Uwch CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r prosesau asesu. **Ni fwriedir iddyn nhw fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr;** bwriedir iddynt, yn hytrach, roi cymorth i ddarlithwyr ac athrawon ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, at y fanyleb y dylech gyfeirio'n gyntaf bob amser. Mae'r Canllawiau Addysgu yn cynnwys rhaglen astudio a awgrymir, y gellir ei defnyddio'n sail i ddatblygu cynllun gwaith.

Yn ogystal â'r Canllawiau hyn, darperir cymorth fel a ganlyn:

- deunyddiau asesu enghreifftiol
- digwyddiadau DPP wyneb yn wyneb
- adroddiadau'r arholwyr ar bob papur cwestiynau
- mynediad rhad ac am ddim at gyn-bapurau cwestiynau a chynlluniau marcio drwy'r wefan ddiogel
- cysylltiad uniongyrchol â'r swyddog pwnc – mae'r manylion cyswllt ar y wefan
- adnoddau ar-lein rhad ac am ddim
- dadansoddi canlyniadau arholiadau
- adolygu arholiadau ar-lein.

Bydd y cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yng nghyd-destunau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod:

- yn deall y materion moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- yn deall y dulliau plentyn-ganolog neu berson-ganolog o ofalu
- yn dehongli ac yn gwerthuso damcaniaethau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, ac yn myfyrio ar sut maen nhw'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau
- yn nodi'r ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol sy'n cyfrannu at Iechyd da, ac yn esbonio rôl llywodraeth a gweithwyr proffesiynol wrth hyrwyddo a chynnal Iechyd da
- yn gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

Mae'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys gwybodaeth cymhwyster TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant; fodd bynnag, nid yw hwn yn ofyniad dysgu blaenorol.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig dilyniant addas i ddysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau gwybodaeth, ymarfer ac ymarfer a theori Lefel 2 a Lefel 3 yn y gyfres cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a restrir ar dudalen 6 y fanyleb.

Gall dysgwyr astudio Tystysgrif neu Ddiploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau neu Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ar yr un pryd â TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Noder ei fod yn ofyniad, fel dywedir yn y fanyleb y bydd:

- angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod â chymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymhwyster craidd i weithio mewn rolau swyddi penodol
- bydd angen i unigolyn sy'n gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant fod â'r:
  - cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd; a'r
  - cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: cymhwyster Ymarfer a Theorii weithio mewn rolau swyddi penodol.

## 2. NODAU'R CANLLAWIAU ADDYSGU

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd TAG UG ac Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

**Ni fwriedir i'r canllawiau fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr**; bwriedir iddynt, yn hytrach, roi cymorth i athrawon proffesiynol ddatblygu gweithgareddau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau penodol eu hunain.

Mae'r canllawiau'n cynnig cymorth i athrawon o ran gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau at adnoddau digidol defnyddiol (ein deunyddiau digidol ni sydd ar gael am ddim a hefyd deunyddiau digidol o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

DRAFT

### 3. TROSOLWG O AMCANION ASESU'R FANYLEB

Er mwyn cyflawni cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau:

- Uwch Gyfrannol: 2 uned
- Safon Uwch: 4 uned – y ddwy uned uchod a dwy uned naill ai o'r llwybr gofal plant neu o'r llwybr iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

Y gofyniad sylfaenol o ran oriau dan arweiniad (ODA) ar gyfer y cymhwyster hwn yw:

- UG – 180 ODA
- Safon Uwch – 360 ODA

#### Dull Asesu

Mae'r dulliau asesu ar gyfer y cymhwyster hwn yn cynnwys

- |                                |   |
|--------------------------------|---|
| • Arholiadau ysgrifenedig      | Uwch Gyfrannol: Uned 1<br>Safon Uwch: Uned 3 neu Uned 5 |
| • Asesiadau Di-arholiad (NEA): | Uwch Gyfrannol: Uned 1<br>Safon Uwch: Uned 4 neu Uned 6 |

#### Safon UG (dwy uned)

UG Uned 1: Hybu iechyd a llesiant Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 20% o'r cymhwyster	80 marc: 100 GMU
---	------------------

UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru Asesiad di-arholiad: tua 30 awr 20% o'r cymhwyster	100 marc: 100 GMU
---	-------------------

#### Safon Uwch (yr uchod ynghyd â dwy uned bellach)

##### Llwybr Gofal Plant

U2 Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster	100 marc: 150 GMU
--	-------------------

U2 Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc Asesiad di-arholiad: tua 40 awr 30% o'r cymhwyster	100 marc: 150 GMU
---	-------------------

## Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

U2 Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

U2 Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch

Asesiad di-arholiad: tua 40 awr

30% o'r cymhwyster

100 marc: 150 GMU

Mae TAG yn fanyleb sy'n cynnwys unedau sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

I ddechrau, Uned 1 ac Uned 2 yn unig a fydd ar gael yn 2021 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2021.

Bydd Uned 3, Uned 4, Uned 5 ac Uned 6 ar gael yn 2022 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2022.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybrau posibl tuag at gymhwyster TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Ni chaniateir cyfuniadau eraill o unedau.

Cymhwyster	Uned 1	Uned 2	Uned 3	Uned 4	Uned 5	Uned 6
UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	✓	✓				
Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant <sup>1</sup>	✓	✓	✓	✓		
Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant <sup>2</sup>	✓	✓			✓	✓

<sup>1</sup> Llwybr Gofal Plant

<sup>2</sup> Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

## Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

### AA1

Ar UG: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Ar U2: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o naill ai iechyd a gofal cymdeithasol oedolion **neu** ofal plant.

### AA2

Ar UG: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Ar U2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o naill ai iechyd a gofal cymdeithasol oedolion **neu** ofal plant.

**AA3** Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar ofal er mwyn dangos dealltwriaeth, llunio barn resymegol a dod i gasgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch llawn.

### UG

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
<b>Uned 1</b>	20%	10%	20%	50%
<b>Uned 2</b>	15%	20%	15%	50%
<b>Pwysoli cyffredinol</b>	<b>35%</b>	<b>30%</b>	<b>35%</b>	<b>100%</b>

### Safon Uwch

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
<b>Uned 1</b>	8%	4%	8%	20%
<b>Uned 2</b>	6%	8%	6%	20%
<b>Uned 3 / Uned 5</b>	12%	6%	12%	30%
<b>Uned 4 / Uned 6</b>	9%	12%	9%	30%
<b>Pwysoli cyffredinol</b>	<b>35%</b>	<b>30%</b>	<b>35%</b>	<b>100%</b>



Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu mewn:

- cwestiwn penodol ym mhob un o'r arholiadau ysgrifenedig sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig
- yr adran '*dadansoddi a gwerthuso*' yn Uned 2 a'r adran '*asesu natur newidiol cymdeithas*' yn Uned 4 ac Uned 6.

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.

DRAFT

TAG UG a Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

I helpu dysgwyr i ddeall gofynion cwestiynau'r arholiadau allanol a'r tasgau asesu di-arholiad er mwyn bodloni'r amcanion asesu, defnyddir y set ganlynol o ferfau gorchmynnol:

TAG UG a Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant		
AA	Gorchymyn	Gofynion yr ymateb
AA1	Diffiniwch	Rhowch union ystyr
	Disgrifiwch	Rhowch nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad byr/manyion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd
	Rhowch	Rhowch/enwch/dewiswch/nodwch ffeithiau neu enghreifftiau byr (o ffynhonnell benodol neu drwy ddwyn i gof)
	Nodwch	Fel yn achos 'rhowch'
	Rhestrwch	Fel yn achos 'rhowch'
	Enwch	Fel yn achos 'rhowch'
	Amlinellwch	Nodwch y prif bwyntiau/rhowch ddisgrifiad byr neu nodwch y prif nodweddion
	Nodwch	Fel yn achos 'rhowch'
	Awgrymwch	Cyflwynwch syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl
	Crynowch	Dewiswch a chyflwynwch y prif bwyntiau (heb fanylion)
AA2	Cymhwyswch	Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol
	Cyfrifwch	Datrys gan ddefnyddio ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth sydd wedi'u rhoi
	Lluniwch	Creu fframwaith neu ddadl
	Esboniwch	Rhowch fanylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae
	Eglurwch	Defnyddio diagram neu eiriau i egluro sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol
	Dehonglwch	Trosi gwybodaeth o un ffurf i ffurf arall
	Dangoswch	Fel yn achos 'eglw'r'wch'
	Defnyddiwch	Cymhwyswch y wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol

AA	Gorchymyn	Gofynion yr ymateb
AA3	Cynghorwch	Awgrymu cynllun neu ddull o weithredu ar sail rhesymau a gefnogir
	Dadansoddwch	Archwiliwch fater yn fanwl/sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esboniwch a dehonglwch
	Aseswch	Lluniwch farn wybodus
	Cymharwch	Nodwch ac esboniwch elfennau tebyg a gwnewch sylwadau arnyn nhw
	Ystyriwch	Darllen y wybodaeth a roddwyd ac ymateb iddi
	Cyferbyniad	Nodwch ac esboniwch wahaniaethau a gwnewch sylwadau arnynt
	Trafodwch	Archwiliwch fater yn fanwl/mewn ffordd strwythuredig, gan ystyried syniadau gwahanol
	Gwahaniaethwch	Nodi ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng syniadau neu destunau
	Gwerthuswch	Lluniwch farn drwy bwysu a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad
	Archwiliwch	Ymchwiliwch yn agos ac yn fanwl
	Cyfiawnhewch	Ategwch achos gan ddefnyddio tystiolaeth/dadl
	Argymhellwch	Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth

## 4. RHAGLEN ASTUDIO

Bwriad y llwybr a awgrymir drwy'r fanyleb yw helpu athrawon/tiwtoriaid/darlithwyr wrth iddyn nhw gynllunio a gellid ei ddefnyddio i fod yn sail i gynllun gwaith.

Mae'n bwysig nodi bod sawl ffordd o drefnu cynnwys y fanyleb, ac mai awgrymiadau sydd yma, nid gorchmynion.

Dylai athrawon/tiwtoriaid/darlithwyr ystyried:

- anghenion a galluoedd eu dysgwyr
- yr amser a ddyrennir
- nifer y sesiynau addysgu yr wythnos/tymor
- amseru arholiadau ac asesiadau mewnol
- eu profiad eu hunain
- adnoddau yn y ganolfan a'r ardal leol

Mae Safon UG yn cynnwys Unedau 1 a 2. Mae Safon Uwch yn cynnwys Unedau 1 a 2 a naill ai Unedau 3 a 4 neu Unedau 5 a 6.

O ran trefn y cwrs, argymhellir cwblhau Unedau 1 a 2 UG cyn yr unedau Safon Uwch o'u dewis, er mwyn rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr sy'n astudio'r cwrs Safon Uwch i gyflawni UG pe bai eu cynlluniau'n newid.

Mae'n bwysig cofio, er bod asesiad pob uned yn canolbwyntio ar y cynnwys uned sy'n benodol i'r uned honno, y gall ymgeiswyr gael marciau am unrhyw gyfeiriad at gynnwys o unedau eraill. Er enghraifft:

- yn Uned 2, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o fewn Uned 1 wrth gwblhau eu tasgau Uned 2
- yn Unedau 4 a 6, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o fewn unrhyw un o'r tair uned arall a astudiwyd.

Mae hyn yn galluogi'r ymgeiswyr i wneud cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Gall fod yn anodd cyflawni hyn os yw'r staff yn addysgu'r unedau ar wahân, ond dylid gwneud pob ymdrech i dynnu sylw'r dysgwyr at gysylltiadau rhwng yr unedau.

Blwyddyn 1 – UG		
Tymhorau'r ysgol	Uned	Cynnwys
<b>Medi/Hydref</b>	1	2.1.1 (a) Diffiniadau o iechyd a llesiant 2.1.1 (b) Deall modelau iechyd, anabledd a llesiant 2.1.1 (c) Cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>		2.1.2 (a) Penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant 2.1.2 (b) Tueddiadau, patrymau a safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch 2.1.2 (c) Deddfwriaeth a strategaethau i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da
<b>Y Nadolig</b>		
<b>Ionawr/Chwefror</b>		2.1.3 (a) Mesurau ataliol: a gefnogir gan ddewisiadau ffordd o fyw a strategaethau lleol/cenedlaethol 2.1.3 (b) Ffactorau risg y gellir eu haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mawrth/Ebrill</b>		2.1.3 (c) Diffiniad o hybu iechyd 2.1.3 (ch) Dulliau gwahanol o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch 2.1.3 (d) Mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru 2.1.3 (dd) Y cyd-destun y mae pobl mewn rolau hybu iechyd yn gweithredu ynddo a manteision a chyfyngiadau'r rolau
<b>Y Pasg</b>		
<b>Ebrill/Mai</b>		Ailadrodd ac adolygu (1) Diffiniadau a chysyniadau Ailadrodd ac adolygu (2) Deall safbwyntiau Ailadrodd ac adolygu (3) Cefnogi a hybu
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mehefin/Gorffennaf</b>		Arholiad

Blwyddyn 1 – UG		
Tymhorau'r ysgol	Uned	Cynnwys
Medi/Hydref	2	2.2.3 (c) Yr amrywiaeth eang o rolau sy'n bodoli, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl yng Nghymru
		2.2.2 (a) Gofal person-ganolog/plentyn-ganolog mewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
		2.2.2 (ch) Cydnabod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant o ansawdd uchel
		2.2.4 (a) Effaith deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol ar y ddarpariaeth ac ar hawliau darparwyr ac unigolion
		2.2.2 (c) Amrywiaeth o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
<b>Hanner tymor</b>		
Tachwedd/Rhagfyr		2.2.2 (b) Egwyddorion a gwerthoedd craidd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
		2.2.2 (d) Gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth fel nodwedd allweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
		2.2.1 (c) Nodi ac asesu anghenion unigolion drwy gydol eu bywyd
		2.2.1 (a) Cefnogi unigolion i nodi cryfderau a chyflawni eu canlyniadau personol o ran eu hiechyd a'u llesiant
		2.2.1 (b) Cefnogi unigolion i nodi a chryfhau gwydnwch
<b>Nadolig, y</b>		
Ionawr/Chwefror		2.2.1 (ch) Helpu pobl i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau
		2.2.3 (a) Strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru
		2.2.4 (b) Dulliau seiliedig ar hawliau mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru
<b>Hanner tymor</b>		
Mawrth/Ebrill		2.2.3 (ch) Sut mae darpariaeth yng Nghymru yn cyferbynnu â darpariaeth mewn mannau eraill yn y DU
		2.2.3 (ch) Cynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru
		2.2.4 (a) Effaith deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol ar y ddarpariaeth ac ar hawliau darparwyr ac unigolion
<b>Y Pasg</b>		
Ebrill/Mai		Cwblhau'r asesiadau di-arholiad
<b>Hanner tymor</b>		
Mehfin/Gorffennaf		

<b>Uned 2 – Llwybr Gofal Plant Safon Uwch</b>		
<b>Tymhorau'r ysgol</b>	<b>Uned</b>	<b>Cynnwys</b>
<b>Medi/Hydref</b>	3	2.3.1 (a) Meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>		2.3.1 (b) Sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn gysylltiedig â meysydd datblygiad plant 2.3.2 (a) Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae
<b>Nadolig, y</b>		
<b>Ionawr/Chwefror</b>		2.3.2 (b) Pwrpas chwarae 2.3.2 (c) Camau chwarae 2.3.2 (ch) Mathau o chwarae
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mawrth/Ebrill</b>		2.3.3 (a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc 2.3.3 (b) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol
<b>Y Pasg</b>		
<b>Ebrill/Mai</b>		Ailadrodd ac adolygu (1) Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant Ailadrodd ac adolygu (2) Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu Ailadrodd ac adolygu (3) Ymddygiad plant a phobl ifanc
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mehafin/Gorffennaf</b>		Arholiad

<b>Uned 2 – Llwybr Gofal Plant Safon Uwch</b>		
<b>Tymhorau'r ysgol</b>	<b>Uned</b>	<b>Cynnwys</b>
<b>Medi/Hydref</b>	4	2.4.1 (a) Pwysigrwydd bodloni anghenion corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yn ystod pob cyfnod datblygu 2.4.1 (b) Mathau o drawsnewid, profiadau a newidiadau mewn bywyd a allai effeithio ar wydnwch a datblygiad plant a phobl ifanc
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>		2.4.1 (c) Deall ac ymateb i anghenion iechyd a gofal cymhleth plant a phobl ifanc 2.4.1. (ch) Y mathau o asesu a'u pwrpas o ran darparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc
<b>Y Nadolig</b>		
<b>Ionawr/Chwefror</b>		2.4.2 (a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant 2.4.2 (b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar ofal plant
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mawrth/Ebrill</b>		2.4.2 (c) Natur newidiol darpariaeth gofal plant a'r goblygiadau i'r gweithlu 2.4.3 (a) Rôl deddfwriaeth bresennol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth plant a phobl ifanc yng Nghymru
<b>Y Pasg</b>		
<b>Ebrill/Mai</b>		Cwblhau'r asesiadau di-arholiad
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mehfin/Gorffennaf</b>		



<b>Blwyddyn 2 – Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Safon Uwch</b>		
<b>Tymhorau'r ysgol</b>	<b>Uned</b>	<b>Cynnwys</b>
<b>Medi/Hydref</b>	5	2.5.1 (a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion 2.5.1 (b) Pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>		2.5.2 (a) Y damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol
<b>Y Nadolig</b>		
<b>Ionawr/Chwefror</b>		2.5.2 (b) Dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mawrth/Ebrill</b>		5.5.3 (a) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol
<b>Y Pasg</b>		
<b>Ebrill/Mai</b>		Ailadrodd ac adolygu (1) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion Ailadrodd ac adolygu (2) Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion Ailadrodd ac adolygu (3) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol.
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mehefin/Gorffennaf</b>		Arholiad

Blwyddyn 2 – Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Safon Uwch		
Tymhorau'r ysgol	Uned	Cynnwys
<b>Medi/Hydref</b>	6	<p>2.6.1 (a) Pwysigrwydd darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bodloni anghenion unigolyn yn unol â gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</p> <p>2.6.1 (b) Rhwystrau posibl i unigolion sydd angen defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn bodloni anghenion penodol</p>
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Tachwedd/Rhagfyr</b>		<p>2.6.1 (c) Trawsnewidiadau a phrofiadau bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, yn cynnwys gofal diwedd bywyd ac anghenion gofal cymhleth</p> <p>2.6.1 (ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i unigolion</p>
<b>Y Nadolig</b>		
<b>Ionawr/Chwefror</b>		<p>2.6.2 (a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion</p> <p>2.6.2 (b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion</p>
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mawrth/Ebrill</b>		<p>2.6.2 (c) Natur newidiol darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau i'r gweithlu</p> <p>2.6.3 (a) Rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion agored i niwed Nghymru</p>
<b>Y Pasg</b>		
<b>Ebrill/Mai</b>		Cwblhau'r asesiadau di-arholiad
<b>Hanner tymor</b>		
<b>Mehfin/Gorffennaf</b>		

## 5. CANLLAWIAU UNEDAU

Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn mabwysiadu dull dysgu cymhwysol a phwrpasol. Mae deddfwriaeth yn elfen sy'n codi ym mhob uned a dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod llawer o'r un ddeddfwriaeth wedi'i gynnwys ym mhob uned a'i fod yn sail i'r holl ymarfer a darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

### Uned 1 UG Hybu iechyd a llesiant

Yn yr uned hon, disgwylir i ddysgwyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae iechyd a llesiant yn cael eu diffinio, ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant a'r ffyrdd y mae iechyd a llesiant unigolion yn cael eu cefnogi a'u hybu yng Nghymru, a disgwylir iddynt allu cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i amrywiaeth o gyd-destunau mewn arholiad ysgrifenedig.

2.1.1. Diffiniadau a chysyniadau iechyd a llesiant		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.1.1 (a) Diffiniadau o iechyd a llesiant	<p><b>Dylai dysgwyr wybod am y prif agweddau ar iechyd a llesiant.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio'r sail resymegol y tu ôl i bob un o'r diffiniadau o iechyd a llesiant a gwerthfawrogi mai'r dull cyfannol o ymdrin â iechyd sy'n cael ei hybu gan Sefydliad Iechyd y Byd.</b></p> <p>Gweithgareddau posibl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai dysgwyr ystyried y diffiniadau gwahanol o iechyd a llesiant a thrafod sut gallai'r rhain fod yn berthnasol i amrywiaeth o astudiaethau achos a roddir.</li> <li>Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Adnoddau Uned 1 CBAC</p> <p>Astudiaethau achos</p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.1.1 (b) Deall modelau iechyd, anabledd a llesiant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio cysyniadau allweddol pob un o'r modelau gwahanol o iechyd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gellid defnyddio enghreifftiau er mwyn i ddysgwyr drafod sut gellir defnyddio pob un o'r modelau gwahanol.</li> <li>Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Adnoddau Uned 1 CBAC</p> <p>Astudiaethau achos</p>
<p>2.1.1 (c) Cysyniadau cyfannol o iechyd a llesiant a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt</p>	<p><b>Dylai dysgwyr edrych dros 2.1.1 (a) diffiniad cyfannol o iechyd a diffiniad o lesiant er mwyn egluro'r cydberthynas rhwng y rhain i hyrwyddo cysyniad cyfannol o iechyd a llesiant.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu diffinio pum ffactor a restrir.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gan ddefnyddio astudiaethau achos, gall dysgwyr nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant a thrafod y cydberthynas rhwng ffactorau o fewn pob astudiaeth achos.</li> <li>Dysgwyr i lunio ffeithlun er mwyn dangos y cydberthynas rhwng ffactorau. (Gweithgaredd grŵp neu weithgaredd unigol.)</li> <li>Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Astudiaethau achos</p>

2.1.2 Deall safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.1.2 (a) Penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a sut maent yn cyfrannu at anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant	<p><b>Dylai dysgwyr wybod sut mae pob un o'r penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd a restrir yn y fanyleb yn gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant. Dylen nhw ddeall bod y ffactorau hyn yn berthnasol drwy gydol y rhychwant oes ac y gall y rheini sy'n effeithio ar blant ifanc fod yn ganlyniad dylanwad neu agwedd rhiant/gofalwr.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu cymhwyso'r penderfynyddion drwy gydol y rhychwant oes a gallu gwahaniaethu rhwng y ffactorau y gall unigolion eu rheoli neu na allant eu rheoli.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i lunio map meddwl o'r penderfynyddion i gyd at ddibenion adolygu.</li> <li>• Dysgwyr i drafod ystyr anghydraddoldeb iechyd – y gwahaniaethau osgoadwy mewn iechyd unigolion ledled y boblogaeth a rhwng grwpiau poblogaeth penodol.</li> <li>• Dysgwyr i weithio mewn paru i ymchwilio i sut/pam y gall grwpiau poblogaeth gwahanol brofi anghydraddoldebau iechyd ac adrodd yn ôl i'r dosbarth er mwyn trafod.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.1.2 (b) Tueddiadau, patrymau a safbwyntiau iechyd, llesiant a gwydnwch</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod sut nodir tueddiadau a phatrymau cyfredol iechyd, llesiant a gwydnwch, pwrpas casglu'r wybodaeth hon a sut mae'r wybodaeth hon yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth hybu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai dysgwyr gael amrywiaeth o dystiolaeth ystadegol o ffynonellau gwahanol er mwyn dadansoddi'r canfyddiadau.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	
<p>2.1.2 (c) Deddfwriaeth a strategaethau i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u rôl a'u diben o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch i unigolion yng Nghymru.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr wybod am egwyddorion y strategaethau allweddol sy'n hybu iechyd a llesiant a sut maent yn ceisio hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn parau/grwpiau, dysgwyr i wneud ymchwil a llunio cyflwyniad er mwyn adrodd yn ôl i'r dosbarth ar y ffordd y mae'r deddfwriaeth a'r strategaethau yn cefnogi unigolion mewn cam bywyd penodol drwy gydol y rychwant oes.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p><a href="#">Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Crynodeb person ifanc</a></p>

2.1.3 Cefnogi a hybu iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.1.3 (a) Mesurau ataliol: a gefnogir gan ddewisiadau ffordd o fyw a strategaethau lleol/cenedlaethol	<p><b>Dylai dysgwyr wybod pob un o'r mesurau ataliol a deall mai pwrpas y mesurau ataliol yw cefnogi iechyd a llesiant</b> fel bod unigolion mor iach â phosibl ac atal afiechyd/anabledd a lleihau'r angen am driniaeth – atal yn hytrach na gwella.</p> <p><b>Dylai dysgwyr wybod pob un o'r mesurau ataliol a sut gallant gefnogi a hybu iechyd a llesiant.</b> Dylent feddu ar wybodaeth am y rhaglenni imiwneiddio a'r rhaglenni sgrinio sydd ar gael drwy gydol y rychwant oes.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i wneud ymchwil i gynhyrchu rhaglen imiwneiddio gyfredol i unigolion ar draws y rychwant oes.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio sut gall unigolion gael eu cefnogi a'u hannog i gael budd o'r mesurau ataliol gan bob un o'r ffactorau gwahanol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodaeth am bob un o'r dulliau o gefnogi mewn perthynas â'r dulliau ataliol gwahanol – nodi pa ddulliau atal sydd fwyaf priodol ar gyfer camau bywyd gwahanol.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.1.3 (b) Ffactorau risg y gellir eu haddasu o ran iechyd, llesiant a gwydnwch</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod sut gall pob un o'r ffactorau risg fod yn niweidiol i iechyd a llesiant unigolion drwy gydol y rhychwant oes a dylent allu esbonio sut gellir eu haddasu er mwyn gwella iechyd a llesiant.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i lunio tabl ar gyfer adolygu, gan nodi risgiau ac addasiadau ar gyfer pob ffactor risg.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio ffyrdd y gallai'r ffactorau risg hyn ddod yn risg i fywyd neu achosi sefyllfaoedd neu glefyd sy'n cyfyngu ar fywyd.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i ystyried astudiaethau achos/senarios er mwyn nodi risgiau i unigolion a'r ffyrdd y gellid osgoi y rhain – cysylltu'n ôl â 2.1.3 (a)</p>	
<p>2.1.3 (c) Diffiniad o hybu iechyd</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod y diffiniad sydd yn y fanyleb, 'y broses o alluogi unigolion i gynyddu rheolaeth dros eu hiechyd a'i wella' a dylent ddeall bod hyn yn cyfeirio at bob agwedd ar iechyd a llesiant drwy gydol y rhychwant oes.</b></p>	



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.1.3 (ch) Dulliau gwahanol o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod pob un o'r dulliau gwahanol, a dulliau o hybu iechyd, llesiant a gwydnwch a sut gall y dulliau hyn ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd targed gwahanol wrth gefnogi a hyrwyddo'r mesurau ataliol a'r ffactorau risg a nodir yn 2.1.3 (a) a (c).</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gael amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd er mwyn pennu'r canlynol: a ydynt yn canolbwyntio ar iechyd, llesiant a/neu wydnwch? y dull a ddefnyddir; a yw'n sylfaenol, eilaidd neu drydyddol; y dulliau a ddefnyddir a'u haddaswydd i'r grŵp targed.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	
<p>2.1.3 (dd) Mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth sy'n cyfrannu at wella iechyd, llesiant a gwydnwch y boblogaeth yng Nghymru</p>	<p><b>Gan gyfeirio at 2.1.2 (b) tueddiadau, patrymau a safbwyntiau, dylai dysgwyr ddeall ffynonellau ymgyrchoedd, sut mae mentrau ac ymgyrchoedd y llywodraeth yn cael eu datblygu a sut maent yn cael eu gwerthuso.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ystyried yr ymgyrchoedd a nodir yn y fanyleb er mwyn deall ffurfiau posibl ymgyrchoedd a mentrau a sut mae pob un yn bwriadu gwella/gwneud gwahaniaeth i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn parau/grwpiau, dysgwyr i ymchwilio i nifer o ymgyrchoedd/mentrau ac adrodd yn ôl i'r dosbarth. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymdrin â phob ymgyrch.)</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.1.3 (dd) Y cyd-destun y mae pobl mewn rolau hybu iechyd yn gweithredu ynddo a manteision a chyfyngiadau'r rolau</p>	<p><b>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol, er bod llawer o ymgyrchoedd hybu iechyd yn canolbwyntio ar unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd, eu llesiant a'u gwydnwch eu hunain, fod gan lawer o ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant rôl yn y gwaith o hybu iechyd fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd – gan edrych ar y person cyfan nid dim ond y broblem sydd gan y person hwnnw – yn cysylltu â Gofal Iechyd Darbodus 2.1.2(c).</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio prif fanteision a chyfyngiadau rolau'r ymarferwyr hyn wrth hybu iechyd, llesiant a gwydnwch gan ystyried y cyd-destun maen nhw'n gweithio ynddo; er enghraifft, y lleoliad lle maen nhw'n gweithio ac amrywiaeth yr unigolion y gallan nhw fod mewn cysylltiad â nhw.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i nodi'r agweddau ar iechyd, llesiant a gwydnwch y gallai pob ymarferwr a restrir yn y fanyleb ymdrin â nhw, gan nodi manteision a chyfyngiadau eu rôl mewn lleoliadau gofal a gydag ystod o gamau bywyd.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

## UG Uned 2 – Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

2.2.1 Cefnogi unigolion i gyflawni'r canlyniadau personol		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.2.1 (a) Cefnogi unigolion i nodi cryfderau a chyflawni eu canlyniadau personol o ran iechyd a llesiant	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall ystyr cryfderau a chanlyniadau personol a sut mae unigolion yn penderfynu ar y rhain.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall sut gall ymarferwyr gynnig cymorth i unigolion nodi eu cryfderau er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gwblhau tasg 'darganfod mwy', lle y bydd angen iddynt ymchwilio i ystyr y term 'canlyniadau personol'.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo'r fideos Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Enghraifft o ddefnyddio dull canlyniadau' ac 'Enghraifft o beidio â defnyddio dull canlyniadau'.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaethau achos a phenderfynu beth allai fod yn ganlyniadau personol i'r unigolyn hwnnw. Dysgwyr i roi awgrymiadau ar ba gefnogaeth allai fod yn ofynnol er mwyn cyflawni ei ganlyniadau personol.</li> <li>• Dysgwyr i amlinellu a thrafod dadleuon o blaid ac yn erbyn y dull hwn, sut mae'n cefnogi a ddim yn cefnogi'r unigolyn.</li> <li>• Dysgwyr i gael senario er mwyn ystyried sut byddai'r dull canlyniadau personol o fudd i'r unigolyn.</li> </ul>	<p><a href="#">Canlyniadau personol</a></p> <p><a href="#">Cofnodi mesuriadau canlyniadau personol</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.1 (b) Cefnogi unigolion i nodi a chryfhau gwydnwch</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu diffinio gwydnwch a disgrifio pob un o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar wydnwch unigolyn drwy gydol y rhychwant oes.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu rhoi enghreifftiau o bob un o'r ffyrdd y gall unigolion gael eu cefnogi i nodi ac adeiladu eu gwydnwch, er enghraifft, er mwyn hybu a chefnogi annibyniaeth, gellir galluogi unigolion i gymryd rheolaeth a gwneud penderfyniadau drwy roi gwybodaeth a darparu hyfforddiant i ddysgu sgiliau newydd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i drafod ystyr y term 'gwydnwch' a rhoi enghreifftiau o adegau lle maent wedi bod yn wydn.</li> <li>• Dysgwyr i lunio llinell amser o'r camau bywyd a nodi'r ffactorau a all effeithio ar wydnwch unigolyn.</li> <li>• Dysgwyr i amlinellu a thrafod ffactorau a all effeithio ar wydnwch unigolyn yn ystod pob cam bywyd.</li> <li>• Dysgwyr i gael delweddau o unigolyn i edrych arnynt a thrafod pa ffactorau allai effeithio ar ei wydnwch.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos o unigolyn a nodi gyda pha agweddau ar ei fywyd y mae angen cefnogaeth arno, a pha wasanaethau allai ei helpu.</li> <li>• Dysgwyr i gael senarios o unigolion y mae ffactorau'n effeithio ar eu gwydnwch ac ystyried pa wasanaethau lleol a allai eu helpu nhw.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.1 (c) Nodi ac asesu anghenion unigolion drwy gydol eu bywyd</p>	<p><b>Mae'r acronym CDIEC yn ffordd dda o gofio anghenion yr unigolion – corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol, cymdeithasol. Mae angen i ddysgwyr wybod sut gallai'r anghenion hyn wahaniaethu i unigolion ar draws eu rychwant oes.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall bod gan bob unigolyn hawl i gael asesiad o'u hanghenion ar gyfer gofal a chymorth, a bod mater iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant yn rheswm posibl am hyn; er enghraifft, unigolyn sy'n gadael yr ysbyty ar ôl llawdriniaeth fawr, person hŷn sy'n byw ar ei ben ei hun, teulu sydd â phlentyn ag anghenion ychwanegol.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall pob agwedd ar y broses asesu a sut mae hyn yn codi o ddyletswydd gofal yr awdurdod lleol – gofalu am blant, unigolion hŷn, ac unigolion anabl a'u diogelu.</b></p> <p><b>Cyfeiriwch at egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Gofal Iechyd Darbodus.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i nodi beth yw anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol, cymdeithasol.</li> <li>• Dysgwyr i lunio llinell amser sy'n cwmpasu'r rychwant oes ac ysgrifennu'r anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol, cymdeithasol allweddol ym mhob cam bywyd.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r broses asesu a ddefnyddir yng Nghymru a'i chrynhoi.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos ac yn mynd drwy'r broses asesu gan nodi sut byddai'r broses o fudd i'r unigolyn.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ba anghenion sy'n cael eu hasesu yn ystod y broses asesu ac yn eu nodi.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn o gyfnod bywyd penodol a nodi o'r rhestr asesu pa anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol, cymdeithasol sy'n cael eu bodloni, a pha rai sydd ddim.</li> </ul>	<p><a href="#">Asesiadau gofal cymdeithasol i bobl hŷn sydd ag anghenion gofal yng Nghymru</a></p> <p><a href="#">Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.1 (ch)            Helpu pobl i fesur cynnydd yn erbyn canlyniadau</p>	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall mai'r unigolyn sy'n nodi'r canlyniadau personol, bod y canlyniadau hyn yn rhan o gynlluniau gofal a chymorth a'u bod yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio'r ffyrdd y gellir cefnogi unigolion i fesur eu cynnydd yn erbyn eu canlyniadau personol. Dylen nhw allu esbonio sut defnyddir myfyrio ar eu cynnydd yn rhan o asesiad parhaus er mwyn penderfynu a yw'r gofal a'r cymorth neu'r cynllun cymorth yn effeithiol neu a oes angen newid.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos a nodi pa ganlyniadau y gellid eu hawgrymu ar eu cyfer. Yna, dysgwyr i osod targedau tymor byr a thymor hir er mwyn helpu'r unigolyn i gyrraedd y canlyniadau cyffredinol.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r modd y mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn asesu unigolion i weld a ydynt wedi cyflawni eu canlyniadau, a chrynhoi hyn.</li> </ul>	

2.2.2 Arferion gwaith yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.2.2 (a) Gofal person-ganolog/plentyn-ganolog mewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	<p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio beth yw ystyr gofal person-ganolog/plentyn-ganolog a sut mae'n ymwneud â darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r ddeddfwriaeth a'r polisiau cyfredol, fel maent wedi'u rhestru yn y fanyleb. Gan y gall deddfwriaeth a pholisiau newid, dylai dysgwyr ganolbwyntio ar y fersiynau mwyaf cyfredol ac ar ddeddfwriaeth a pholisiau newydd wrth iddynt esblygu.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i drafod y term 'darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'.</li> <li>Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn a'i anghenion er mwyn edrych ar sut dylai'r gwasanaethau anelu at fodloni ei anghenion.</li> <li>Gall dysgwyr edrych ar y rhestr o ddeddfwriaeth a pholisiau a gweld sut mae eu prif nodau yn cyfeirio at ofal person-ganolog/plentyn-ganolog a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</li> </ul>	
2.2.2 (b) Egwyddorion a gwerthoedd craidd sy'n sail i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall bod yr egwyddorion gofal a chymorth sydd wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn seiliedig ar hawliau dynol a'u bod yn dilyn y ddeddfwriaeth a'r polisiau cyfredol.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y mae amrywiaeth o ymarferwyr yn cymhwyso egwyddorion gofal a gwerthoedd craidd, a nodir yn y fanyleb, yn eu gwaith bob dydd er mwyn sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu cynnal.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr yn trafod egwyddorion a gwerthoedd craidd. Beth ydyn nhw? Ydyn nhw wedi clywed amdany'n nhw o'r blaen? A ydynt yn gallu enwi rhai?</li> <li>Dysgwyr i ymchwilio i egwyddorion a gwerthoedd craidd gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant a llunio ffeithlun i'w hesbonio.</li> <li>Dysgwyr i gael astudiaeth achos a nodi sut mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd yn cefnogi'r unigolyn (unigolion).</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.2 (c) Amrywiaeth o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod am bob un o'r sgiliau a thechnegau a sut gellir eu defnyddio gan wahanol ymarferwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant er mwyn helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i drafod y termau 'sgiliau' a 'thechnegau'.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i sgiliau a thechnegau cyffredinol a ddefnyddir mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</li> <li>• Dysgwyr i gael delwedd/gwyllo fideo o weithiwr proffesiynol yn ymgymryd ag agwedd ar ei swydd a nodi pa sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio a pham.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos o weithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant, a nodi'r amrywiaeth o sgiliau a thechnegau y maent yn eu defnyddio, gan roi enghreifftiau.</li> <li>• Dysgwyr i gael neu ddewis eu hymarferwr eu hunain sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant. Yna mae angen iddynt ymchwilio i'r sgiliau a'r technegau maent yn eu defnyddio yn eu rôl i gefnogi canlyniadau personol unigolion a chreu ffeithlun ar y sgiliau a'r technegau hynny.</li> </ul>	



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.2 (ch) Cydnabod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant o ansawdd uchel</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod sut mae pob un o'r safonau, cyrff a rheoliadau a restrir yn y fanyleb yn anelu at ddarparu'r gofal o ansawdd uchel y mae gan unigolion yng Nghymru hawl i'w gael.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu nodi safonau a osodwyd gan ddeddfwriaeth a sut mae sefydliadau rheoleiddio'n sicrhau bod lleoliadau'n bodloni'r safonau a osodwyd a sut mae'r rhain o fudd i unigolion sy'n cael gofal a chymorth.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i archwilio a chrynhai beth yw'r cyrff rheoleiddio/arolygu i'r gwasanaethau yn y tri sector gwahanol – iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Beth yw eu nod a beth maent yn ei reoleiddio?</li> <li>• Dysgwyr i nodi beth yw manteision deddfwriaethau a chyrff rheoleiddio wrth sicrhau bod lleoliadau yn bodloni'r safonau a osodwyd.</li> <li>• Dysgwyr i ddewis corff rheoleiddio/arolygu o bob gwasanaeth ac ymchwilio i sut maent yn sicrhau bod pobl yn addas i weithio yn y gwasanaeth hwnnw a nodi hyn.</li> <li>• Gallai dysgwyr gael neu ddod o hyd i erthyglau newyddion yn esbonio achosion lle mae cyrff rheoleiddio wedi ymyrryd mewn gwasanaeth oherwydd ei fod wedi methu bodloni'r safon a osodwyd.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.2 (d) Gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth fel nodwedd allweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod a deall y gwahaniaeth rhwng gwaith tîm amlddisgyblaethol ac amlasiantaeth a'i bwrpas.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i drafod beth yw ystyr tîm amlddisgyblaethol. Dysgwyr i ymchwilio i bwy a allai fod yn rhan o dîm amlddisgyblaethol mewn lleoliadau gwahanol.</li> <li>• Dysgwyr i nodi manteision a chyfyngiadau gweithio gyda thîm amlddisgyblaethol.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn y mae angen cefnogaeth arno gan wasanaethau gwahanol a thrafod y bobl mewn tîm amlddisgyblaethol a allai ei gefnogi.</li> <li>• Dysgwyr i gael senario am dîm amlddisgyblaethol yn cydweithio a thrafod beth allai'r manteision a'r cyfyngiadau fod wrth gydweithio.</li> <li>• Dysgwyr i drafod y termau 'amlasiantaethol' a 'rhyngddisgyblaethol'. Dysgwyr i ymchwilio i ddiffiniad o'r termau 'amlasiantaethol' a 'rhyngddisgyblaethol'.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r lleoliadau a allai fod yn rhan o waith 'amlasiantaethol' a 'rhyngddisgyblaethol' a'u nodi.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gwahanol a thrafod sut bydd y gwasanaethau yn cydweithio a sut bydd hyn er budd i'r unigolyn.</li> <li>• Dysgwyr i amlinellu a thrafod dadleuon o blaid ac yn erbyn gwasanaethau yn cydweithio.</li> <li>• Dysgwyr i gael senario lle y mae angen help gwasanaethau gwahanol ar unigolyn a nodi pa wasanaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi'r unigolyn.</li> </ul>	

2.2.3 Darpariaeth leol a chenedlaethol		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.2.3 (a) Strwythur y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru	<p><b>Dylai dysgwyr wybod mai'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n gyrru'r newidiadau mewn darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i ymchwilio i nodweddion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a'u crynhoi.</li> <li>Dysgwyr i ddarganfod mwy am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr wybod am y pedwar darparwr gwahanol sy'n rhoi gofal a chymorth, ac er eu bod yn cael eu hariannu'n wahanol, eu bod yn gweithio mewn partneriaeth yn rheolaidd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i drafod ystyr y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector a gofal di-dâl.</li> <li>Dysgwyr i lunio tabl yn amlinellu'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau allweddol rhwng y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector.</li> <li>Dysgwyr i ymchwilio i sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant sydd yn y categorïau sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio'r mathau gwahanol o atgyfeirio/cael mynediad at wasanaethau.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i drafod ystyr y term 'atgyfeiriad' a sut mae'n cysylltu â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</li> <li>Dysgwyr i ymchwilio i'r mathau gwahanol o atgyfeiriad a'u nodi, a rhoi enghreifftiau o pryd gallent gael eu defnyddio.</li> <li>Dysgwyr i gael senarios byr er mwyn nodi'r dulliau atgyfeirio a ddefnyddir.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.3 (b) Cynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term ‘cynaliadwyedd’.</b></p> <p><b>Mae angen i ddysgwyr allu esbonio prif bwrpas a themâu allweddol Nod Pedwarplyg ‘Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a Gofal Cymdeithasol’ a thrafod sut bydd y rhain yn helpu cynaliadwyedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio pob un o’r heriau i ddarpariaeth iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i drafod beth yw ystyr y term ‘demograffeg’ ac yna’r categorïau gwahanol y gellir rhoi’r boblogaeth ynddynt.</li> <li>• Dysgwyr i drafod pam mae demograffeg yn bwysig wrth gynllunio’r ddarpariaeth iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru a sut y defnyddir demograffeg.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ddemograffeg eu hardal leol a chrynhoi eu canfyddiadau.</li> <li>• Dysgwyr i drafod y term ‘rhwystr’ a sut mae’n cysylltu â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i’r rhwystrau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant yng Nghymru a’u nodi.</li> <li>• Dysgwyr i restru ffyrdd o oresgyn rhwystrau y mae unigolion yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at ddarpariaeth yng Nghymru.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ffyrdd y gellir goresgyn rhwystrau i unigolion sy’n ceisio cael mynediad at ddarpariaeth yng Nghymru a’u nodi.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn sy’n wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant yng Nghymru a gwneud awgrymiadau ynghylch sut gellir goresgyn y rhwystrau.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.3 (c) Yr amrywiaeth eang o rolau sy'n bodoli, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth posibl a llwybrau gyrfa posibl yng Nghymru</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod am rolau amrywiaeth o ymarferwyr sydd mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Hefyd, dylent wybod am y cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl yr ymarferwyr hyn yn y sectorau gwahanol fel y nodir nhw yn rhestr yn 2.2.3 (a). Er y dylai dysgwyr wybod am yr ymarferwyr sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wneud rhestrau neu ddiagramau corryn o'r rolau swyddi gwahanol sydd ar gael mewn gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</li> <li>• Yna, dysgwyr i ymchwilio i rolau swyddi eraill sydd ar gael yn y gwasanaethau nad oeddent wedi meddwl amdanynt.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn a phenderfynu pa weithiwr iechyd proffesiynol fyddai ei angen o'r gwasanaethau i'w gefnogi.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall bod cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa gwahanol ar gael i ymarferwyr yn y sectorau gwahanol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i ddewis pum rôl swydd (o wasanaethau gwahanol) ac ymchwilio i'r farchnad swyddi gyfredol i weld faint o gyfleoedd swyddi sydd ar gael, gan gofio y gall fod swyddi ar gael yn y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol.</p> <p>Dysgwyr i ddewis swydd o bob gwasanaeth ac ymchwilio i sut gellir cymhwyso ar gyfer y rôl swydd honno, gan gofio y gallai fod mwy nag un llwybr i lawer ohonynt.</p> <p>Dysgwyr i ddewis dwy rôl i ymchwilio iddynt a llunio ffeithlun sy'n esbonio'r llwybrau iddynt.</p>	<p>Gellid gwahodd Gyrfa Cymru i ddod i'r lleoliad i drafod y cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn y gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.3 (ch) Sut mae darpariaeth yng Nghymru yn cyferbynnu â darpariaeth mewn manau eraill yn y DU</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod bod gan wledydd gwahanol y DU bwerau gwahanol lle mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon awdurdod dros eu gwledydd eu hunain, ond maen nhw'n dal i fod yn rhan o'r DU. Y llywodraeth ganolog yn Lloegr sydd â phŵer dros bethau fel diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn yn y DU ond mae'n gadael i'r llywodraethau datganoledig reoli pethau fel y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae angen i ddysgwyr allu cymharu'r pethau tebyg a gwahanol rhwng y ddarpariaeth gofal a chymorth yng Nghymru a'r gwledydd eraill yn y DU.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r term 'datganoli' a thrafod beth mae'n ei olygu.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i bwy sy'n gyfrifol am ofal iechyd statudol, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i nodweddion allweddol y deddfwriaethau a restrir yn y fanyleb a'u crynhoi. Yna gall dysgwyr drafod sut maent yn debyg ac yn wahanol.</li> <li>• Dysgwyr i ddarganfod mwy am ddeddfwriaeth benodol yn y pedair gwlad a sut maent yn wahanol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arno.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r hyn a fyddai ar gael ym mhob gwlad i'r unigolyn hwnnw. A yw'r gwasanaethau yn debyg neu'n wahanol?</li> </ul> </li> <li>• Dysgwyr i gadarnhau dealltwriaeth drwy chwarae gêm cywir neu anghywir; dysgwyr i gael gwybodaeth am ddeddfwriaeth a gwlad ac mae angen iddynt benderfynu a yw'n gywir neu'n anghywir.</li> </ul>	

## 2.2.4 Cyfrifoldebau a hawliau darparwyr ac unigolion

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.4 (a) Effaith deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol ar y ddarpariaeth ac ar hawliau darparwyr ac unigolion</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod egwyddorion allweddol y ddarpariaeth gyfredol a'r polisïau cenedlaethol a lleol a luniwyd er mwyn hybu darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn effeithiol drwy wasanaethau ac er mwyn diogelu hawliau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae angen iddynt ddeall sut mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau yn effeithio ar unigolion, gwasanaethau ac ymarferwyr ac arferion gofal ar lefel genedlaethol a lleol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gael polisïau o'u lleoliad a thrafod o ba ddeddf y gallent fod wedi dod.</li> <li>• Dysgwyr i drafod beth yw deddfwriaeth a pham mae ei hangen ar gyfer unigolion a'r darparwyr.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol o'r rhestr a ddarperir a dod o hyd i'w pwrpas allweddol, pwy maen nhw'n ei gefnogi a pha effaith y dylai ei chael. Gallai dysgwyr ymgymryd â'r gweithgaredd hwn mewn grwpiau a dewis dau neu dri darn o ddeddfwriaeth i ymchwilio iddynt, ac yna adrodd yn ôl y wybodaeth y maent wedi dod o hyd iddi i'r grŵp. Yn unigol, gall dysgwyr lunio tabl gydag agweddau allweddol pob darn o deddfwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.2.4 (b) Dulliau seiliedig ar hawliau mewn perthynas â deddfwriaeth ac ymarfer iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu nodi nodweddion allweddol deddfwriaeth hawliau dynol a restrir yn y fanyleb. Mae angen iddynt allu esbonio sut mae dulliau seiliedig ar hawliau wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth iechyd, gofal cymdeithasol, a gofal plant Cymru a sut mae hyn yn cefnogi hawliau unigolion.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i edrych ar wefan Llywodraeth Cymru 'Sut mae cyfreithiau'n cael eu creu ar gyfer Cymru' a gwneud nodiadau.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r Deddfau sy'n cefnogi hawliau unigolion yng Nghymru a'u crynhoi.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i nodweddion allweddol y Ddeddf Hawliau Dynol a'u crynhoi.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'w lleoliad addysgol eu hunain i weld sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wedi'i wreiddio yn eu lleoliad eu hunain (e.e. llais myfyrwyr/cyngor myfyrwyr). Dysgwyr i lunio posteri ar gyfer eu lleoliad, gan nodi hawliau'r plentyn.</li> <li>• Dysgwyr i gynnal eu harolwg eu hunain ymhlith eu cyfoedion er mwyn darganfod beth sy'n bwysig iddynt o ran eu hawliau.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i achosion neu gael erthyglau newyddion sy'n dangos enghraifft lle nad yw hawliau unigolyn anabl yn cael eu bodloni. Dysgwyr i dynnu sylw at y modd na chafodd eu hawliau eu bodloni a chrynhoi hynny.</li> </ul>	



## Safon Uwch Uned 3 Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

2.3.1 Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.3.1 (a) Meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc (0-18 oed). Dylen nhw ddeall y meysydd corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol allweddol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wneud rhestr o eiriau/ymadroddion ac ymchwilio i'w hystyron.</li> <li>• Dysgwyr i rannu dalen o bapur yn bedair rhan a nodi gwahanol agweddau ar feysydd datblygu corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu llinell amser o 0 i 18 oed ac ysgrifennu ar y maes datblygiad a ddylai fod wedi cael ei gyrraedd erbyn yr oedran cywir.</li> <li>• Dysgwyr yn cael amlinelliad o unigolyn o oedran penodol a rhestru o'i gwmpas y meysydd corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol y dylai fod wedi'u cyrraedd erbyn yr oedran hwnnw.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos am unigolyn ac ateb cwestiynau am feysydd datblygiad y dylai fod wedi'u cyrraedd.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.3.1 (b) Sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn gysylltiedig â meysydd datblygiad plant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall y safbwyntiau seicolegol allweddol a sut maen nhw a'r damcaniaethau sy'n gysylltiedig â nhw yn berthnasol i ddatblygiad ac ymddygiad plant. Mae angen i ddysgwyr wybod a deall prif dybiaethau'r safbwyntiau seicolegol allweddol a'r damcaniaethau sy'n gysylltiedig â phob dull, fel y manylir arnyn nhw yn y fanyleb, ac mae angen iddynt allu esbonio sut maen nhw'n rhoi cyfrif am ymddygiad plant a phobl ifanc. Bydd disgwyl i ddysgwyr allu cyfeirio at ddamcaniaethwyr a dylai athrawon geisio addysgu am ddamcaniaethwyr priodol mewn perthynas â phob ymagwedd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r gwahanol ddamcaniaethwyr a damcaniaethau.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ddamcaniaethwr penodol a chrynhoi eu canfyddiadau a rhoi adborth arnyn nhw i'r grŵp.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo fideos ar YouTube ar wahanol ddamcaniaethwyr a gwneud nodiadau.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu tabl sy'n amlinellu nodweddion allweddol pob damcaniaeth.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i amlinellu a thrafod dadleuon o blaid ac yn erbyn pob damcaniaeth.</li> <li>• Dysgwyr i drafod beth yw cryfderau a chyfyngiadau pob damcaniaeth a dull.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall y technegau neu'r dulliau sy'n codi o'r damcaniaethau a sut gellir defnyddio'r technegau a'r dulliau hyn i gefnogi datblygiad plant.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i'r wahanol ddulliau a'u crynhoi a dweud sut maen nhw'n cefnogi datblygiad plant.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos am blentyn a phenderfynu pa ddull fyddai'n addas.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

DRAFT

2.3.2 Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.3.2 (a) Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae	<p><b>Dylai dysgwyr allu deall ei bod hi'n bosibl diffinio chwarae fel: 'beth mae plant a phobl ifanc yn ei wneud pan maen nhw'n dilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain, ac am eu rhesymau eu hunain'. Mae angen iddyn nhw ddeall y gwahaniaeth rhwng y diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ddiffiniadau o chwarae a gwaith chwarae. Ydyn nhw'n debyg i'w diffiniadau nhw eu hunain o chwarae a gwaith chwarae?</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ymarfer gwaith chwarae a'i grynhoi.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.3.2 (b) Pwrpas chwarae</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu deall bod chwarae'n rhan hanfodol o fywyd pob plentyn a'i fod yn hanfodol er mwyn mwynhau plentynod yn ogystal â datblygiad cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr wybod beth yw manteision chwarae, sut mae chwarae'n cefnogi agweddau gwahanol ar ddatblygiad ac y gall gweithgareddau chwarae gefnogi mwy nag un agwedd ar ddatblygiad.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i restru'r ffyrdd gwahanol y mae plentyn yn gallu chwarae.</li> <li>• Dysgwyr i lunio llinell amser o 0-18 oed ac ysgrifennu'r mathau gwahanol o chwarae a ddisgwyllir ar gyfer yr oedran hwnnw.</li> <li>• Dysgwyr i rannu dalen o bapur yn bedair rhan a nodi sut gall chwarae effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plentyn.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo clipiau o'r cyfresi teledu, <i>The Secret Life of ... 2, 3, 4, 5 and 6-Year-Olds</i>, sy'n dangos sut mae chwarae'n helpu datblygiad y plant mewn meysydd allweddol.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos ar blentyn ac ateb cwestiynau ynghylch sut byddai chwarae'n fanteisiol i'w ddatblygiad.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu ffeithlun i rieni newydd sy'n esbonio sut mae chwarae'n gallu effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol eu plentyn.</li> <li>• Dysgwyr i gael tasg ymchwil lle maen nhw i fod i ymchwilio i Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Dylen nhw ddarganfod beth yw pwrpas y fframwaith, beth yw ei safbwynt ar chwarae a sut mae'n dweud bod chwarae'n helpu datblygiad plentyn.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i beth yw therapi chwarae a dysgu'n seiliedig ar chwarae, a rhoi crynodeb o hyn.</li> <li>• Dysgwyr i ymweld â meithrinfa neu ysgol gynradd i weld sut mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei weithredu.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.2.2 (c) Cyfnodau chwarae	<p><b>Dylai dysgwyr allu nodi a disgrifio chwe phrif gam chwarae.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i edrych ar ddelweddau o'r camau chwarae gwahanol a'u cyfateb i'w henw.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo'r cyfresi teledu, <i>Supernanny</i> a <i>The Secret Life of ... 2, 3, 4, 5 and 6-Year-Olds</i>, a gwneud nodiadau am y mathau gwahanol o chwarae a ddangosir.</li> <li>• Dysgwyr i ddarganfod ac ymchwilio rhagor am bob cam chwarae, dod o hyd i enghreifftiau o bob un ac yna penderfynu erbyn pa oedran y dylai plant fod wedi'u meistroli nhw.</li> <li>• Dysgwyr i ymchwilio a chrynhoi (yn unigol neu fel grŵp) camau gwahanol chwarae a chynhyrchu cyflwyniad PowerPoint i ddangos i eraill beth maen nhw wedi'i ddarganfod.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.3.2 (ch) Mathau o chwarae</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu nodi a rhoi enghreifftiau o'r mathau gwahanol o chwarae.</b></p> <p><b>Wrth baratoi at arholiadau, mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng camau chwarae a mathau o chwarae.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i roi enghreifftiau o'r ffyrdd gwahanol y gall plant ddysgu, yna ceisio eu rhannu'n fathau gwahanol o chwarae.</li> <li>• Dysgwyr i gael delweddau o blant yn chwarae a nodi'r mathau gwahanol o chwarae a sut maen nhw'n cefnogi meysydd datblygiad y plant.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo clipiau o'r cyfresi teledu, <i>The Secret Life of ... 2, 3, 4, 5 and 6-Year-Olds</i>, a nodi'r mathau gwahanol o chwarae a thrafod sut maen nhw'n cefnogi meysydd datblygiad y plant.</li> <li>• Dysgwyr i ymweld â chylch chwarae, meithrinfa neu ysgol gynradd i arsylwi'r mathau o chwarae sy'n cael eu gwneud.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu llyfryn i rieni sy'n cynnwys syniadau am fathau gwahanol o chwarae gydag esboniadau sut byddan nhw'n helpu meysydd datblygiad eu plentyn (plant).</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

2.3.3 Ymddygiad plant a phobl ifanc		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.3.3 (a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall pob un o'r ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc ac y gall y ffactorau hyn effeithio ar ddatblygiad hefyd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wneud rhestr/diagram corryn o'r holl ffactorau gwahanol a allai effeithio ar ymddygiad plant. Yna maen nhw i fod i benderfynu pa rai sy'n gymdeithasegol, yn gymdeithasol-economaidd neu'n seicolegol.</li> <li>• Dysgwyr i gael astudiaeth achos am blentyn sydd wedi profi gwahanol ddigwyddiadau bywyd a phenderfynu pa rai allai effeithio ar eu hymddygiad a pham.</li> <li>• Dysgwyr i gyfweld ag arbenigwr ymddygiad – gallai hyn fod yn eu lleoliad eu hunain, mewn canolfan arbenigol neu drwy dîm ymddygiad lleol eu cyngor sir.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.3.3 (b) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol</p>	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall sut gall rhieni a'r rhai sy'n gweithio mewn gofal plant hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wneud tabl sy'n rhestru gwahanol fathau o hybu ymddygiad cadarnhaol, rhoi enghraifft o'r dull ac esboniad o sut dylai helpu i hybu ymddygiad cadarnhaol.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio beth yw ymddygiad sy'n herio a'r tair agwedd ar hybu ymddygiad cadarnhaol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu deunyddiau adolygu i ddangos eu bod yn deall y pwnc.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu nodi a disgrifio'r strategaethau ar gyfer lleihau ymddygiad nas dymunir.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wneud rhestru/diagram corryn o'r strategaethau y maen nhw wedi'u gweld/defnyddio er mwyn lleihau ymddygiad nas dymunir.</li> <li>• Dysgwyr i wyllo penodau o'r gyfres deledu, <i>Supernanny</i>, i arsylwi'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio.</li> <li>• Dysgwyr i llunio taflen strategaeth ymddygiad gydag awgrymiadau ynghylch sut i leihau ymddygiad nas dymunir.</li> <li>• Cyfweiliad â gweithiwr chwarae, nyrs feithrin neu athrawes i gael gwybod am y strategaethau y maen nhw'n eu defnyddio.</li> <li>• Ymchwilio i'r gwahanol strategaethau a restrwyd a rhoi enghreifftiau o sut gallen nhw gael eu defnyddio.</li> </ul>	

## Safon Uwch Uned 4 Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

2.4.1 Anghenion plant a phobl ifanc		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.1 (a) Pwysigrwydd bodloni anghenion corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yn ystod pob cyfnod datblygu</p>	<p><b>Fel yn Uned 2, wrth ystyried y gwahanol anghenion yn ystod pob cyfnod datblygu, gallai dysgwyr ddefnyddio'r acronym CDIEC: anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol. Dylai dysgwyr ganolbwyntio ar y ffactorau a restrir yn y fanyleb a sut gall y rhain wahaniaethu ar gyfer y cyfnodau datblygu.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio rhestr termau.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu adnodd i nodi anghenion allweddol plant a phobl ifanc yn ystod pob cyfnod datblygu.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall beth yw ystyr gofal plentyn-ganolog a gallu cymhwyso'r wybodaeth hon i drafod ei phwysigrwydd o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu nodi'r rhwystrau i gael gofal a chymorth a chymhwyso'r rhain at astudiaethau achos sy'n seiliedig ar wasanaethau lleol. Mae dysgwyr yn ystyried rhwystrau posibl i blant a phobl ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth i fodloni anghenion penodol.</b></p>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Rhwystrau i gynnwys:</b></p> <p><b>Meini prawf cymhwys:</b> a yw unigolion yn bodloni trothwy'r awdurdod lleol i gael cymorth?</p> <p><b>Daearyddol:</b> lleoliad, pellter i wasanaethau, problemau symudedd, argaeledd trafnidiaeth, cost trafnidiaeth.</p> <p><b>Loteri cod post:</b> dysgwyr i gymharu'r gwasanaethau yn eu hardal â'r rhai mewn ardal wahanol er mwyn deall sut mae'r ddarpariaeth yn amrywio, yn dibynnu ar y lleoliad a blaenoriaethau'r awdurdod iechyd.</p> <p><b>Diffyg gwybodaeth:</b> pa strategaethau newydd sydd ar gael i wella sut mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo o fentrau cenedlaethol/lleol i ofalwyr/unigolion?</p> <p><b>Statws economaidd-gymdeithasol:</b> ystyried effaith tlodi ac addysg wael ar iechyd a chysylltu hyn â mynediad at wasanaethau.</p> <p><b>Iaith:</b> dylai dysgwyr ystyried Saesneg fel ail iaith, mynediad gwael at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, rhagfarnau a stereoteipio hiliol, adnoddau i'r rhai rhannol ddall a byddar, anawsterau wrth lenwi ffurflenni a gwneud gwaith papur.</p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i drafod amrywiaeth o astudiaethau achos ac ymchwilio i'r ddarpariaeth leol sydd ar gael i oresgyn rhwystrau a sicrhau mynediad llawn at wasanaethau.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau taflen waith i esbonio pob un o'r rhwystrau y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal a chymorth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.1 (b) Mathau o drawsnewid, profiadau a newidiadau mewn bywyd a allai effeithio ar wydnwch a datblygiad plant a phobl ifanc</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu nodi'r gwahanol fathau o drawsnewidiadau, profiadau a newidiadau mewn bywyd a sut gall y rhain effeithio ar ddatblygiad a gwydnwch plant a phobl ifanc.</b></p> <p><b>Wrth esbonio'r effaith ar wydnwch, mae'n bwysig bod dysgwyr yn ymwybodol o gysyniad gwydnwch, ac wrth drafod yr effeithiau ar y plentyn neu'r person ifanc, dylai dysgwyr drafod yr ochr gadarnhaol a'r ochr negyddol bob amser. Wrth drafod profiadau niweidiol yn ystod plentynod gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, er mai effaith negyddol sydd ganddyn nhw'n bennaf ar wydnwch a datblygiad, mae'n bwysig canolbwyntio ar yr effaith gadarnhaol hefyd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai'r dysgwyr lunio llinell amser o drawnewidiadau a newidiadau mewn bywyd a effeithiodd arny'n nhw ac ar eu rhieni. Gellid defnyddio unigolion eraill os oes angen, e.e. selebs, ffrindiau neu deidiau a neiniau. Yr allwedd yw bod y llinell amser yn un realistig, gyda mathau o drawsnewidiadau, profiadau a newidiadau mewn bywyd a all fod wedi effeithio ar wydnwch eu datblygiad pan oedden nhw'n blentyn ac yn berson ifanc. Dylid annog y dysgwyr i feddwl am agweddau cadarnhaol a negyddol.</li> <li>Llunio cardiau a'u cyfateb, gyda thrafodaeth grŵp. Ymchwilio i'r gwasanaethau (sector statudol/preifat/ trydydd sector) sydd ar gael yn lleol i helpu unigolion i ymdopi â'r newidiadau hyn.</li> <li>Defnyddio tablau gwag i restru'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob sector er mwyn ymdopi â phob newid neu drawsnewid.</li> </ul>	<p>Cyflwyniad PowerPoint profiadau niweidiol yn ystod plentynod ar gyfer lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, sydd wedi'i gymeradwyo gan ACE Aware. Mae hwn yn bwnc sensitif iawn, ac, o ganlyniad, mae nifer o strategaethau y gall y ganolfan eu hystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Rhoi rhybudd ymlaen llaw am y wers.</li> <li>Egluro bod cymorth ar gael yn fewnol ac yn allanol i ddysgwyr.</li> <li>Creu podlediad ar gyfer y wers petai dysgwr eisiau gwrando mewn rhan wahanol o'r ganolfan.</li> </ol>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.1 (c) Deall ac ymateb i anghenion iechyd a gofal cymhleth plant a phobl ifanc</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod bod llawer o resymau pam mae gan rai plant a phobl ifanc anghenion gofal cymhleth a'r ffyrdd y mae lleoliadau gwahanol yn gallu cefnogi'r anghenion gwahanol i gyflawni canlyniadau personol.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Pob dysgwr i lunio taflen i athrawon a chynorthwywyr addysgu newydd sy'n dechrau gyrfu ym myd addysg (gallan nhw ddewis pa faes) i roi crynodeb o angen cymhleth penodol a sut y gallai'r lleoliad a'r athro/cynorthwydd addysgu newydd ymateb i'r angen hwnnw. Dylai pob dysgwr ganolbwyntio ar angen cymhleth gwahanol. Gellid rhannu'r taflenni. Dylai'r dysgwyr ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw'r angen cymhleth?</li> <li>• Sut byddai'r angen cymhleth yn effeithio ar anghenion CDIEC (corfforol, deallusol (gwybyddol), iaith, emosiynol neu gymdeithasol)?</li> <li>• Y ffyrdd y mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a'r lleoliad yn deall yr anghenion cymhleth hyn ac yn ymateb iddyn nhw i gyflawni canlyniadau personol.</li> <li>• Safbwyntiau rhieni a gofalwyr am yr anghenion cymhleth hyn (gallen nhw ddod o hyd i grŵp cefnogi ar-lein) ac ysgrifennu rhai profiadau a ffyrdd effeithiol o ymateb i'r anghenion cymhleth hyn.</li> </ul>	<p>Dolenni defnyddiol:</p> <p><a href="#">Syndrom Down</a>  <a href="#">Ffibrosis cystig</a>  <a href="#">ADY</a>  <a href="#">Digartrefedd (1)</a>  <a href="#">Digartrefedd (2)</a>  <a href="#">Effaith marwolaeth rhiant</a>  <a href="#">Ffoaduriaid</a>  <a href="#">Afiechyd sy'n cyfyngu ar fywyd</a>  <a href="#">Gofalwyr ifanc</a>  <a href="#">Plant y mae eu rhieni'n ddibynnol ar alcohol</a>  <a href="#">Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (1)</a>  <a href="#">Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (2)</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.1 (ch) Y mathau o asesu a'u pwrpas o ran darparu cefnogaeth briodol ac amserol i blant a phobl ifanc</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio'r pedwar math o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gellir rhannu'r dysgwyr yn bedwar grŵp a pharatoi siart troi ar fath penodol o asesiad er mwyn nodi anghenion cymorth plant. Gellir rhannu'r pedwar grŵp yn ôl y pedwar math o asesiad sy'n cael eu gwneud.</li> <li>Gallai'r dysgwyr lunio siart llif sy'n amlinellu'r rhaglen sgrinio yn ystod plentyndod yng Nghymru. Dysgwyr i egluro'r broses sgrinio hyd at 7 oed.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio sut mae pum elfen yr asesu yn y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn sail i ddyletswyddau awdurdodau lleol a disgrifio egwyddorion yr ymgwedd at asesu.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i gynhyrchu poster sy'n ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y pum elfen gydgysylltiedig a pham mae'n bwysig i'r awdurdod lleol ystyried hyn</li> <li>cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn y broses o asesu plant a phobl ifanc</li> <li>yr egwyddorion allweddol/pwrpas y tu ôl i asesiadau a pham mae'n bwysig cwblhau'r asesu'n amserol.</li> </ul>	<p><a href="#">Asesiad y Cyfnod Sylfaen</a></p> <p><a href="#">Trosolwg o raglen plant iach Cymru</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr allu dadansoddi manteision ymyrryd yn gynnar a deall sut mae hyn yn gallu gohirio'r defnydd o ofal wedi'i reoli.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Edrych ar enghreifftiau o gynllunio gofal a chymorth, a'u trafod, gan gyfeirio'n benodol at y ffordd y cofnodir gwybodaeth. Dylai dysgwyr ddod i werthfawrogi sut mae ansawdd y gofal yn aros yn gyson drwy gynllunio'r gofal yn ofalus a'i gofnodi'n fanwl.</li> <li>• Dylai dysgwyr fapio cwestiynau ar gyfer asesiad a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd chwarae rôl cyn llunio cynllun gofal. Gall dysgwyr lenwi cynlluniau gofal gwag drwy weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio astudiaethau achos/senarios.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall pwrpas cyffredinol cynlluniau gofal a chymorth parhaus a pha wasanaethau a ddylai gael eu cynnwys mewn pecyn gofal, er enghraifft: help gyda thasgau bywyd bob dydd, addasiadau i'r cartref, gofal personol, coginio, mynediad at ganolfannau dydd a gofal seibiant.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>I gadarnhau'r dysgu, dysgwyr i ymchwilio i ble mae modd dod o hyd i'r gwasanaethau hyn yn lleol.</p>	

## 2.4.2 Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.2 (a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru, ynghyd â 'Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a Gofal Cymdeithasol'.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ymchwilio i ragor o wybodaeth am nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan nodi sut gallai hyn effeithio ar ofal plant yng Nghymru.</li> <li>• Dysgwyr i gynhyrchu map meddwl, sy'n amlinellu sut mae 'Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn bwriadu gyrru'r newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bob un o'r materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant yng Nghymru</b></p> <p><b>Gofal a chymorth wedi'u personoli:</b> ceisiadau ariannu cleifion unigol (os yw'n feddyginiaeth nad yw ar gael fel mater o drefn ar y GIG), cyflogi cynorthwyydd personol i helpu gyda byw'n annibynnol.</p> <p><b>Darpariaeth y Gymraeg:</b> sut mae siaradwyr Cymraeg yn gallu sicrhau hawliau a hawlogaethau i gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain drwy edrych ar wybodaeth ddwyieithog a gwasanaethau cyfieithu. Dylen nhw ddeall pwysigrwydd cyfathrebu yn eu hiaith eu hunain.</p> <p><b>Diogelu:</b> mae angen i ddysgwyr ystyried amrywiaeth o faterion diogelu a deall y termau sy'n gysylltiedig â diogelu. Dylen nhw ddeall pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu a beth yw'r gweithdrefnau a'r protocolau ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu. Mae amrywiaeth o senarios diogelu yn yr adnoddau.</p>	



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Fforddiadwyedd:</b> dysgwyr i archwilio i'r system codi ffoedd am ofal (y trothwyau ar hyn o bryd yng Nghymru ac yn Lloegr), talu am ofal, taliadau uniongyrchol (dull hyblyg o dalu am ofal wedi'i bersonoli). Mae newidiadau diweddar yn arwain at ragor o fuddsoddiad mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.</p> <p><b>Cynaliadwyedd:</b> meddwl hirdymor (cenedlaethau'r dyfodol), gwaith iechyd ataliol, integreiddio datblygiad cynaliadwy, cydweithredu rhwng cyrff a sectorau, ymwneud unigolion, cymunedau a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeirio'r dysgwyr at Gofal Iechyd Darbodus 2013, mwy o ofal iechyd i'w ddarparu yn y gymuned yn hytrach nag mewn ysbytai. Gweithlu cynaliadwy – recriwtio meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig.</p> <p><b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:</b> dysgwyr i greu map meddwl o'r ardaloedd lle mae gwahaniaethu ac edrych ar yr amcanion yng nghynllun cydraddoldeb strategol Cymru 2017 – 2022 (codi ymwybyddiaeth; ymchwilio i arferion da a'u rhannu; cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i gael gweithlu amrywiol a chynrychioliadol; sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau dynol, urddas a pharch yn sail i hyfforddiant gofal cymdeithasol; recriwtio a chadw gweithlu cynrychiadol i gefnogi a hybu cyfle cyfartal; ac ehangu a gwella'r ffordd mae cyflogwyr gofal cymdeithasol yn cyfathrebu â'u staff ac â'r cyhoedd.</p>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.2 (b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar ofal plant</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio sut mae pob un o'r ffactorau a restrir yn y fanyleb yn achosi newid yn y gymdeithas a sut mae'r rhain yn effeithio ar ofal plant yng Nghymru. Dylen nhw ystyried:</b></p> <p><b>Safonau byw:</b> incwm, tlodi a chydraddoldeb ledled y DU; a chysylltu hyn â gofal plant. Tlodi bwyd (banciau bwyd, prydau ysgol am ddim). Teuluoedd sy'n byw o dan y llinell dlodi – pa gymorth gofal cymdeithasol sydd ei angen arny'n nhw?</p> <p><b>Oed y fam:</b> mamau yn eu harddegau, mamau hŷn – effeithiau ar ddatblygiad, faint o gymorth sydd ei angen.</p> <p><b>Strwythur y teulu:</b> mwy o aelwydydd un person, teuluoedd rhiant sengl, teuluoedd wedi'u cyfuno (adluniedig), ystadegau ysgariad.</p> <p><b>Patrymau gweithio:</b> isafswm cyflog, contractau dim oriau, gweithio o'r cartref. Sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar fywyd teuluoedd a chymorth gofal plant?</p> <p><b>Amlddiwyllyannaeth:</b> yr effaith gadarnhaol ar addysg, busnes, cynllunio trefol, y celfyddydau a chwaraeon. Edrych ar newidiadau lleol a phenderfynu pa effaith mae amrywiaeth ac amlddiwyllyannaeth wedi'i chael ar ddarpariaeth gofal plant.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i wneud ymchwil i gymharu sut mae natur y gymdeithas wedi newid yn y 50 mlynedd diwethaf ac wedi effeithio ar ofal plant yng Nghymru.</p>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.2 (c) Natur newidiol darpariaeth gofal plant a'r goblygiadau i'r gweithlu</p>	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall y pedwar prif newid cyfredol i'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru a sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar weithwyr proffesiynol gofal plant.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Gallai dysgwyr lunio adroddiad newyddion ar y newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Gallai'r dysgwyr weithio mewn pedwar grŵp gwahanol, pob un yn edrych ar newid allweddol yn y ddarpariaeth gofal plant ac yn egluro beth yw'r newid cyfredol a goblygiadau'r newidiadau hyn ar rolau gweithwyr gofal plant proffesiynol.</p>	

DRAFT

## 2.4.3 Rôl deddfwriaeth bresennol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth plant a phobl ifanc yng Nghymru

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.4.3 (a) Rôl mentrau'r llywodraeth a deddfwriaeth cyfredol i ddiogelu a gwella'r gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru</p>	<p><b>Dylai dysgwyr fod yn gallu esbonio pwysigrwydd diogelu plant a phobl ifanc: pam efallai fod angen hynny, a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i'w hamddiffyn nhw.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i greu map meddwl o sefyllfaoedd pan gallai plant a phobl ifanc fod mewn perygl o niwed.</li> <li>• Dysgwyr i drafod beth ddylai plant a phobl ifanc ei wneud os yw eu ffrindiau eisiau iddyn nhw wneud rhywbeth nad ydyn nhw'n ei hoffi neu'n teimlo'n gyfforddus yn ei gylch, e.e. mynd i barti, meddwi, dwyn o siopau, cymryd cyffuriau, cael rhyw.</li> <li>• Gallai'r dysgwyr gael astudiaethau achos er mwyn nodi gwahanol agweddau ar niwed neu gam-drin.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a chyrrff sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc er mwyn eu diogelu.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i ysgrifennu beth gallai unigolion a chyrrff sy'n darparu gofal ei wneud i helpu plant/pobl ifanc i'w hamddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth ac i helpu plant/pobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu nodi nodau deddfwriaeth a mentrau gan y llywodraeth er mwyn gwella gofal a chymorth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.</b> Dylid annog dysgwyr i ddefnyddio terminoleg fanwl gywir wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth a pholisïau.</p>	

## Safon Uwch Uned 5 Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion

2.5.1. Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.5.1 (a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion	<p><b>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol ei bod hi'n bwysig bod gan ymarferwyr wybodaeth gadarn o'r camau datblygiad cyffredinol o 20 - 65+ oed.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr gael gwybodaeth o ddatblygiad cyfannol yn ystod pob cam o oedolaeth – oedolaeth ifanc (20 - 40 oed), oedolaeth ganol (40 - 65 oed) ac oedolaeth hwyr (65 oed +), gan gynnwys: datblygiad corfforol, datblygiad deallusol, datblygiad emosiynol a chymdeithasol.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion allweddol pob un o'r meysydd datblygiad a sut gallan nhw gydgyssylltu i effeithio ar ymddygiad oedolion. Gallai trafodaeth dosbarth ganolbwyntio ar sut gall agweddau gwahanol ar ddatblygiad effeithio ar ymddygiad, gan edrych ar agweddau cadarnhaol a negyddol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach, pob grŵp i gymryd agwedd wahanol ar oedolaeth er mwyn creu poster am ddatblygiad cyfannol i'r grŵp oedran hwnnw a sut gall hyn effeithio ar ymddygiad. Pob grŵp/dysgwr i grynhoi ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa gyfnodau o newid neu drawsnewid sy'n gallu digwydd mewn oedolaeth gynnar i gael effaith ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol (e.e. grwpiau cyfoedion, cyfeillgarwch, teulu, lleoliadau a gweithgareddau grŵp)?</li> <li>• Cymharu datblygiad corfforol disgwyledig oedolyn ugain oed â datblygiad corfforol oedolyn chwe deg pump oed. Sut gallai'r gwahaniaethau hyn effeithio ar ymddygiad?</li> </ul>	Papur A3 a phennau lliw ar gyfer y posteri am ddatblygiad cyfannol.

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i gynllunio a datblygu siart cerrig milltir datblygiadol sy'n dangos datblygiad disgwylidig corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol oedolion 20 - 65 oed, yn dangos sut gall agweddau gwahanol ar ddatblygiad effeithio ar ymddygiad (agweddau cadarnhaol a negyddol).</li> <li>Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall pob un o'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion, fel y'u rhestrir yn y fanyleb ac, ynghyd ag agweddau ar ddatblygiad mewn oedolaeth, sut gallen nhw ryngweithio i ddylanwadu ar ymddygiad oedolion.</b> Mae'n bwysig cofio bod ffactorau'n gallu bod yn rhai cadarnhaol ac yn rhai negyddol.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu nodi ac esbonio ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar ymddygiad mewn unigolion, neu a allai fod yn dal i gael dylanwadu arno.</b> Byddai defnyddio astudiaethau achos/senarios mewn lleoliadau gofal yn cynnig cyfleoedd defnyddiol iddyn nhw gymhwyso eu gwybodaeth.</p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgwyr i weithio mewn paru er mwyn llunio cardiau didoli i ddosbarthu ffactorau naill ai yn ffactorau cymdeithasegol, seicolegol, neu fiolegol.</li> <li>Parau i ddewis un ffactor o bob un o'r categorïau (cymdeithasegol, seicolegol, biolegol) ac esbonio sut gall effeithio ar unigolyn. Pob pâr i grynhoi ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.</li> <li>Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	Cardiau didoli lliwgar

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.5.1 (b) Pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y gair ‘gwydnwch’ a deall y gall hyn amrywio i bob unigolyn.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gan barhau o’r gweithgaredd blaenorol yn 2.5.1 (a), pob pâr i edrych ar y ffactorau o’u dewis a’u heffaith ar wydnwch unigolion, yna adrodd yn ôl i’r dosbarth ar gyfer trafodaeth.</li> <li>• Esbonio sut mae byw gydag anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad oedolyn.</li> <li>• Cymharu effaith perthnasoedd teulu cadarnhaol a negyddol ar wydnwch unigolyn.</li> <li>• Gan ddefnyddio astudiaethau achos byr, dysgwyr i weithio’n unigol i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi ffactorau a allai fod wedi effeithio ar yr oedolyn yn yr astudiaeth achos</li> <li>• esbonio sut mae’r ffactorau wedi effeithio ar ymddygiad yr unigolyn</li> <li>• esbonio’r effaith ar wydnwch yr unigolyn.</li> </ul> </li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi’u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Astudiaethau achos byr</p>

2.5.2 Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.5.2 (a) Damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol	<p><b>Dylai dysgwyr wybod pob un o'r safbwyntiau seicolegol allweddol a'r damcaniaethau cysylltiedig a restrir yn y fanyleb a dylent allu amlinellu prif nodweddion y rhain, yn ogystal â'u manteision a'u cyfyngiadau.</b> Dylai dysgwyr wybod a deall prif dybiaethau'r safbwyntiau seicolegol allweddol a damcaniaethau cysylltiedig pob ymagwedd, fel y manylir arnyn nhw yn y fanyleb, a gallu esbonio sut maen nhw i gyfrif am ymddygiad oedolion. Dylai dysgwyr allu cyfeirio at ddamcaniaethwyr a dylai athrawon geisio addysgu am ddamcaniaethwyr priodol mewn perthynas â phob ymagwedd.</p> <p><b>Hefyd dylai dysgwyr fod yn ymwybodol efallai y bydd gan ddamcaniaethwyr gwahanol o fewn un ymagwedd syniadau, dulliau, a strategaethau ychydig yn wahanol, er bod eu hymagwedd gyffredinol yr un fath.</b> Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r ymagwedd seicodynamig. Awgrymir y gellid rhannu'r ymagwedd hon yn ddwy ran, 'pwysigrwydd y meddwl anymwybodol' – Freud a/neu Erikson, a 'pwysigrwydd profiadau cynnar' – Bowlby a/neu Rutter. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn deall nad yw 'yr esboniad' gan yr ymagweddau/damcaniaethau amrywiol ond eu bod nhw'n cynnig 'un esboniad' yn unig am ymddygiad dynol. Mae'n debygol iawn bod esboniadau sy'n cystadlu â'i gilydd, a mater i'r dysgwr yw gwerthuso'r esboniadau hynny.</p> <p>Bydd y senarios a ddefnyddir yn y papur arholiad yn awgrymu sefyllfa ynghylch unigolyn damcaniaethol mewn lleoliad gofal penodol. Byddai disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a roddir yn y senario a'u gwybodaeth o ddamcaniaethau seicolegol er mwyn dadansoddi materion a phroblemau, dod i farn a dod i gasgliadau perthnasol i'r unigolyn damcaniaethol. Bydd defnyddio senarios/astudiaethau achos tebyg yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer cymhwyso eu gwybodaeth cyn yr arholiad.</p>	<p>Taflenni gwybodaeth</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Mynediad at y Rhyngrwyd</p> <p>Byddai defnyddio siaradwyr/therapyddion gwadd yn dod â mewnwleidiad gwerthfawr a fyddai o fudd mawr i ymgeiswyr wrth iddyn nhw gymhwyso eu gwybodaeth i senarios penodol.</p>



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr allu trafod ac asesu pa mor ddefnyddiol yw unrhyw ddull/strategaeth a ddefnyddir i roi cymorth cadarnhaol i unigolyn.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellir datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o gryfderau a chyfyngiadau pob damcaniaeth drwy weithgaredd grŵp. Mae pob grŵp yn dewis dwy ddamcaniaeth ac yn eu cymharu, yn crynhoi'r canfyddiadau ac yn adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth – gellid gwneud hyn fel cyflwyniad PowerPoint byr.</li> <li>• Dysgwyr i esbonio sut gall gwybodaeth o ddamcaniaethau seicolegol helpu ymarferwyr gofal yn eu gwaith gydag unigolion.</li> <li>• Dysgwyr i gymharu damcaniaethau seicolegol Freud a Rogers.</li> <li>• Dysgwyr i greu llyfryn o daflenni ffeithiau sy'n amlinellu prif bwynt pob damcaniaeth a'r cryfderau a chyfyngiadau cysylltiedig.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.5.2 (b) Dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu trafod pob un o'r technegau / dulliau a restrir yn y fanyleb a sut gellir eu defnyddio er mwyn rheoli gwahanol fathau o ymddygiad oedolion.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i gael rhestr o wahanol fathau o ymddygiad oedolion a thechnegau/dulliau. Dysgwyr i weithio mewn paru i benderfynu ar dull a allai gael ei ddefnyddio i reoli pob ymddygiad a'r rheswm pam bydden nhw'n defnyddio'r dechneg honno/y dull hwnnw. Pob pâr i grynhoi'r canfyddiadau ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.</li> <li>• Dysgwyr i ddisgrifio manteision ymuno â grŵp hunangymorth i reoli gorbryder.</li> <li>• Dysgwyr i esbonio manteision defnyddio cynllun Pilipala i gefnogi unigolion sydd â dementia.</li> <li>• Trafodaeth dosbarth am fanteision defnyddio therapi person-ganolog.</li> <li>• Gan ddefnyddio astudiaethau achos byr, dysgwyr i weithio'n unigol i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bennu techneg/dull y gellid ei d(d)efnyddio i reoli ymddygiad yr unigolyn ym mhob astudiaeth achos.</li> <li>• esbonio pam bydden nhw'n defnyddio'r dechneg honno/y dull hwnnw.</li> </ul> </li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Taflenni gwybodaeth</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Mynediad at y Rhyngwyd</p> <p>Astudiaethau achos byr</p>

2.5.3 Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
2.5.3 (a) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddwyn cadarnhaol	<p><b>Dylai dysgwyr wybod beth yw rôl pob un o egwyddorion gofal person-ganolog a sut maen nhw'n cefnogi dulliau cadarnhaol a rhagweithiol (neu ataliol) wrth ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol a gallu cymhwyso'r rhain i senarios penodol.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i lenwi map meddwl o egwyddorion gofal person-ganolog gan roi enghreifftiau.</li> <li>• Esbonio pam mae'n bwysig deall effaith amgylchedd unigolyn wrth ddatblygu strategaeth/dull cadarnhaol i'w gefnogi.</li> <li>• Gwerthuso pwysigrwydd datblygu a monitro cynlluniau sy'n amlinellu anghenion unigolyn, ei ganlyniadau llesiant dymunol a'r dulliau y bydd yn cael cymorth i gyflawni'r rhain.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio bod ymddygiad sy'n herio yn cyfeirio at unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith negyddol ar lesiant person a/neu sy'n golygu ei fod yn cael ei allgáu o'r gymuned.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i weithio mewn paru i restru enghreifftiau o ymddygiad mewn oedolion y mae'n bosibl ei ddsbarthu fel ymddygiad sy'n herio. Pob pâr i gymryd rhan yn crynhoi ac yn cyflwyno adborth i'r dosbarth er mwyn trafod syniadau.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	Tafleenni A3 a phennau lliw

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr wybod pob un o'r strategaethau a dulliau a restrir y gellir eu defnyddio i gefnogi mathau o ymddygiad cadarnhaol a dylent allu trafod sut gellir eu cymhwyso mewn gwahanol sefyllfaoedd.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i ddefnyddio eu rhestr o fathau o ymddygiad sy'n herio i lunio siart sy'n pennu strategaeth/dull i bob ymddygiad ar eu rhestr, hefyd dysgwyr i roi rhesymau pam bydden nhw'n defnyddio'r dull hwnnw i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. Dysgwyr i grynhoi'r canfyddiadau ac adrodd yn ôl i'r dosbarth ar gyfer trafodaeth.</li> <li>• Dysgwyr i esbonio sut mae'r system goleuadau traffig yn helpu i gefnogi ymddygiad cadarnhaol.</li> <li>• Dysgwyr i asesu'r manteision i unigolion sy'n byw gyda dementia pan mae staff yn defnyddio'r dull 'Cynllun Pilipala' o ran eu gofal.</li> <li>• Gan ddefnyddio astudiaethau achos byr, dysgwyr i weithio'n unigol i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bennu techneg/dull y gellid ei d(d)efnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol yr unigolyn ym mhob astudiaeth achos.</li> <li>• esbonio pam bydden nhw'n defnyddio'r dechneg honno/y dull hwnnw.</li> </ul> </li> <li>• Dysgwyr i gwblhau cwestiynau arholiad wedi'u hamseru er mwyn gwirio eu dealltwriaeth.</li> </ul>	<p>Rhestr a luniwyd o'r blaen o ymddygiad oedolion sy'n herio</p> <p>Astudiaethau achos byr</p>

## **ADNODDAU DEFNYDDIOL**

Mae nifer o lyfrau seicoleg UG ac U2 cyffredinol, sydd â phenodau defnyddiol, ond maen nhw wedi'u hysgrifennu'n benodol i gefnogi manylebau seicoleg byrddau arholi gwahanol ac weithiau maen nhw'n rhy fanwl.

Llyfrau:

Introducing GCSE Psychology, G.C.Davenport

Psychology for Beginners, Nigel C. Benson

Psychology for Nurses, Devinda Rana & Dominic Upton

Simply Psychology, Michael Eysenck

Y Rhyngrwyd:

Mae'n bosibl dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r testunau a'r damcaniaethwyr a restrir yn y fanyleb ar nifer o wahanol wefannau ar y Rhyngrwyd. Mae rhai'n fwy defnyddiol na'i gilydd. Dylid bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod ffynonellau o'r fath wedi'u hargymell, wedi'u cadarnhau neu wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.

Argymhellir y gwefannau canlynol:

[www.psychology.wikia.com](http://www.psychology.wikia.com)

[www.teachpsych.org](http://www.teachpsych.org)

[www.alevelpsychology.co.uk](http://www.alevelpsychology.co.uk)

[www.learnpsychology.net](http://www.learnpsychology.net)

[www2.qeliz.ac.uk/psychology](http://www2.qeliz.ac.uk/psychology)

[www.all-about-psych.com](http://www.all-about-psych.com)

## Safon Uwch Uned 6 Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch

2.6.1 Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion		
Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.1 (a) Pwysigrwydd darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bodloni anghenion unigolyn yn unol â gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>	<p><b>Dylai dysgwyr wybod am egwyddorion craidd a phrif nodweddion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gallu esbonio'r termau: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cyd-gynhyrchu, ac amlasiantaeth, gyda chyfeiriad at ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ystyried ystyr gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran dulliau person-ganolog, nodi'r hyn sy'n bwysig i unigolyn, dull cydweithredol lle mae pawb yn cydweithio gan gynnwys yr unigolyn, nodi cryfderau'r unigolyn, galluogi'r unigolyn i deimio fel partner cyfartal yn y broses.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgwyr i wyllo'r fideos ar ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ateb cwestiynau am bob un. Gwerthuso'r gwahaniaethau rhwng arferion da a drwg o ran gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.</li> <li>• Dysgwyr i lunio map meddwl o lynnau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan nodi pwy allai ymwneud â hyn.</li> <li>• Dysgwyr i gwblhau astudiaethau achos gan ddefnyddio'r fformat cynllunio gofal, gan sicrhau bod elfennau allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn flaenllaw bob amser.</li> </ul>	<p><a href="https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb">https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb</a></p> <p><a href="https://youtu.be/ax0C7ZhJhzg">https://youtu.be/ax0C7ZhJhzg</a></p> <p>Taflenni gwybodaeth</p> <p>Astudiaethau achos ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau: <a href="#">arferion da</a>, <a href="#">arferion gwael</a></p> <p>Papur A3 a phensiliau lliw</p> <p>Cynllun gofal gwag ac amrywiaeth o senarios gofal</p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall beth yw anghenion unigolion ac ymchwilio i sut gellid bodloni pob un o'r anghenion CDIEC a restrir, gan ddefnyddio astudiaethau achos realistig. Dylen nhw edrych ar yr effaith ar yr unigolyn os nad yw anghenion wedi'u bodloni, gan ystyried sut mae anghenion wedi'u cysylltu/pa anghenion sydd wedi'u cysylltu ac sy'n effeithio ar rai eraill, gan adeiladu ar wybodaeth flaenorol o Uned 2.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i ysgrifennu/cyfateb cwestiynau a awgrymir i'w gofyn i unigolion, gydag atebion perthnasol a chanlyniadau sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth o anghenion unigolion.</p>	<p>Adnoddau Hwb Llywodraeth Cymru, adnoddau U2/L3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, modiwl 4: bodloni anghenion unigolion</p>

DRAFT

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.1 (b) Rhwystrau posibl i unigolion sydd angen defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth i fodloni anghenion penodol</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu nodi'r rhwystrau i gael gofal a chymorth a chymhwyso'r rhain i astudiaethau achos sy'n seiliedig ar wasanaethau lleol. Wrth ystyried rhwystrau posibl i oedolion sydd angen defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth i fodloni anghenion penodol, mae'r acronym LEGALS yn ddefnyddiol.</b></p> <p><b>Rhwysterau i gynnwys:</b></p> <p><b>Meini prawf cymhwyso:</b> a yw unigolion yn bodloni trothwy'r awdurdod lleol i gael cymorth?</p> <p><b>Daearyddol:</b> lleoliad, pellter i wasanaethau, problemau symudedd, argaeledd trafndiaeth, cost trafndiaeth.</p> <p><b>Loteri cod post:</b> dysgwyr i gymharu'r gwasanaethau yn eu hardal â'r rhai mewn ardal wahanol er mwyn deall sut mae'r ddarpariaeth yn amrywio, yn dibynnu ar y lleoliad a blaenoriaethau'r awdurdod iechyd.</p> <p><b>Diffyg gwybodaeth:</b> pa strategaethau newydd sydd ar gael i wella sut mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo o fentrau cenedlaethol/lleol i ofalwyr/unigolion?</p> <p><b>Statws economaidd-gymdeithasol:</b> ystyried effaith tlodi ac addysg wael ar iechyd a chysylltu hyn â gallu defnyddio gwasanaethau.</p> <p><b>laith:</b> dylai dysgwyr ystyried Saesneg fel ail iaith, mynediad gwael at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, rhagfarnau a stereoteipio hiliol, adnoddau i'r rhai rhannol ddall a byddar, anawsterau wrth lenwi ffurflenni a gwneud gwaith papur.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Y dosbarth i drafod amrywiaeth o astudiaethau achos ac ymchwilio i'r ddarpariaeth leol sydd ar gael i oresgyn rhwystrau a sicrhau mynediad llawn at wasanaethau.</p>	



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.1 (c) Trawsnewidiadau a phrofiadau bywyd a all effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion, yn cynnwys gofal diwedd bywyd ac anghenion gofal cymhleth</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio'r newidiadau mewn bywyd a'r trawsnewidiadau y mae unigolyn yn eu profi, a'u nodi nhw fel rhai wedi'u cynllunio neu heb eu cynllunio.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu cysylltu pob newid neu drawsnewid â'r effaith y gall ei gael ar ofal a chymorth yr unigolyn.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio cardiau a'u cyfateb, gyda thrafodaeth grŵp. Ymchwilio i ba wasanaethau (sector statudol/preifat/ trydydd sector) sydd ar gael yn lleol i helpu unigolion i ymdopi â'r newidiadau hyn.</li> <li>• Defnyddio tablau gwag i restru'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob sector er mwyn ymdopi â phob newid neu drawsnewid.</li> </ul> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall bod gan rai unigolion anghenion mwy cymhleth a all fod yn anghenion corfforol, gwybyddol, emosiynol, synhwyraidd neu ychwanegol.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Mewn grŵp, dysgwyr i ymchwilio a rhoi cyflwyniadau ar yr anghenion cymhleth a restrir yn y fanyleb.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio sut mae amrywiaeth o gymhorthion corfforol ac addasiadau a thechnoleg gynorthwyol yn rhoi gofal a chymorth i oedolion sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth er mwyn goresgyn rhwystrau a helpu gyda gweithgareddau bywyd bob dydd ac i gyflawni canlyniadau personol.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i gynhyrchu taflen wybodaeth sy'n nodi cymhorthion, addasiadau a thechnoleg gynorthwyol, a sut gall y rhain roi cymorth i unigolion.</p>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr allu diffinio gofal diwedd oes/lliniarol.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dysgwyr i ymchwilio i'r mathau o ofal lliniarol a ddefnyddir, a'r cyrff sy'n gysylltiedig â phecynnau gofal diwedd oes a chymhwyso modelau cyfannol o iechyd i ddangos sut mae'n bosibl bodloni pob angen ar ddiwedd oes.</p>	<p><a href="#">Gofal diwedd oes/lliniarol</a> (GIG)</p> <p><a href="#">Gofal diwedd oes/llinarol</a> (Marie-curie)</p> <p><a href="#">Gofal diwedd oes/lliniarol</a> (Alzheimers org.)</p> <p><a href="#">Gofal diwedd oes/lliniarol</a> (Social care TV)</p>

DRAFT

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.1 (ch) Y mathau o asesiadau a'u pwrpas wrth ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol i unigolion</p>	<p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio beth yw ailalluogi yn eu barn nhw a pham mae cefnogaeth amserol yn hanfodol.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Gwyllo fideos am ailalluogi, cyd-gynhyrchu a chyfranogi, a byw'n annibynnol ar Social Care TV er mwyn cadarnhau'r dysgu.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu ysgrifennu diffiniad o'r pum math o asesiad – wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn, hunanasesiadau gyda chefnogaeth, asesiad ar y cyd ac asesiad wedi'i gyfuno – a nodi pa un yw'r mwyaf priodol ym mha leoliadau.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall y codau ymarfer mewn perthynas â phum elfen asesiadau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu dadansoddi manteision ymyrryd yn gynnar a chefnogaeth, yn erbyn ymyrryd wedi oedi, a hynny er mwyn deall manteision cefnogaeth amserol i unigolion.</b></p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Edrych ar enghreifftiau o gynllunio gofal a chymorth, a'u trafod gan gyfeirio'n benodol at y ffordd y cofnodir gwybodaeth. Dylai dysgwyr ddod i werthfawrogi sut mae ansawdd y gofal yn aros yn gyson drwy gynllunio'r gofal yn ofalus a chofnodi manwl.</li> <li>• Dylai dysgwyr fapio cwestiynau ar gyfer asesiad a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd chwarae rôl cyn llunio cynllun gofal. Gall dysgwyr lenwi cynlluniau gofal gwag drwy weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio astudiaethau achos/senarios.</li> </ul>	<p><a href="#">Fideos Social Care TV:</a></p> <p><a href="#">Cod Ymarfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Aseadau)</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall pa wasanaethau a ddylai fod mewn pecyn gofal, er enghraifft help gyda thasgau bywyd bob dydd, addasiadau i'r cartref, gofal personol, coginio, mynediad at ganolfannau dydd a gofal seibiant a chael mynediad at ofal preswyl neu nyrsio.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>I gadarnhau'r dysgu, dysgwyr i ymchwilio i ble gellid dod o hyd i'r gwasanaethau hyn yn lleol.</p> <p><b>Dylai dysgwyr allu esbonio sut mae cynllunio gofal yn helpu unigolion i fyw'n annibynnol ac i gyfranogi yn y gymdeithas. Mae'n rhoi rheolaeth iddyn nhw dros eu bywydau eu hunain ac yn eu galluogi i gael mynediad at gyflogaeth a bywyd teuluol a chynnal urddas a pharch ar yr un pryd.</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Mae amlygu ac anodi cynlluniau gofal yn cynorthwyo dysgwyr i ddangos dealltwriaeth.</p>	

## 2.6.2 Materion cyfoes wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.2 (a) Gwerthfawrogiad o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion</p>	<p><b>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae siaradwyr Cymraeg yn gallu sicrhau hawliau a hawlogaethau i gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain drwy edrych ar wybodaeth ddwyieithog a gwasanaethau cyfieithu. Dylen nhw ddeall pwysigrwydd cyfathrebu yn eu hiaith eu hunain.</b></p> <p><b>Diogelu:</b> mae angen i ddysgwyr ystyried amrywiaeth o faterion diogelu a deall y termau sy'n gysylltiedig â diogelu. Dylen nhw ddeall pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu a beth yw'r gweithdrefnau a'r protocolau ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu. Mae amrywiaeth o senarios diogelu yn yr adnoddau.</p> <p><b>Gofal a chymorth wedi'u personoli:</b> ceisiadau ariannu cleifion unigol (os yw'n feddyginiaeth nad yw ar gael fel mater o drefn ar y GIG), cyflogi cynorthwyydd personol i helpu gyda byw'n annibynnol.</p> <p><b>Fforddadwyedd:</b> dysgwyr i archwilio i'r system codi ffioedd am ofal (y trothwyau cyfredol yng Nghymru ac yn Lloegr), talu am ofal, taliadau uniongyrchol (dull hyblyg o dalu am ofal wedi'i bersonoli). Mae newidiadau diweddar yn arwain at ragor o fuddsoddiad mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.</p> <p><b>Cynaliadwyedd:</b> meddwl hirdymor (cenedlaethau'r dyfodol), gwaith iechyd ataliol, integreiddio datblygiad cynaliadwy, cydweithredu rhwng cyrff a sectorau, ymwneud unigolion, cymunedau a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeirio'r dysgwyr at Gofal Iechyd Darbodus 2013, mwy o ofal iechyd i'w ddarparu yn y gymuned yn hytrach nag mewn ysbytai. Gweithlu cynaliadwy – recriwtio meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig.</p>	

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:</b> dysgwyr i greu map meddwl o'r ardaloedd lle mae gwahaniaethu ac edrych ar yr amcanion yng nghynllun cydraddoldeb strategol Cymru 2017 – 2022 (codi ymwybyddiaeth; ymchwilio i arferion da a'u rhannu; cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i gael gweithlu amrywiol a chynrychioliadol; sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau dynol, urddas a pharch yn sail i hyfforddiant gofal cymdeithasol; recriwtio a chadw gweithlu cynrychiadol i gefnogi a hybu cyfle cyfartal; ac ehangu a gwella'r ffordd mae cyflogwyr gofal cymdeithasol yn cyfathrebu â'u staff ac â'r cyhoedd.</p>	<p><a href="#">Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Gofal Cymdeithasol Cymru)</a></p>

DRAFT

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.2 (b) Natur newidiol cymdeithas a'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion</p>	<p><b>Mae angen i ddysgwyr esbonio sut mae pob un o'r ffactorau sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb yn achosi newid yn y gymdeithas a sut mae'r rhain yn effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Dylen nhw ystyried:</b></p> <p><b>Poblogaeth sy'n heneiddio:</b> ystadegau, adsefydlu'n fwy pwysig na gofal aciwt mewn ysbyty, mwy o glefydau cronig fel diabetes, problemau'r cymalau a chlefyd y galon.</p> <p><u>Gweithgareddau posibl:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa fframweithiau lleol sydd yn eu lle i helpu?</li> <li>• Sut mae poblogaeth sy'n heneiddio wedi effeithio ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol?</li> </ul> <p><b>Safonau byw:</b> incwm, tlodi a chydraddoldeb ledled y DU; a chysylltu hyn â gofal plant. Tlodi bwyd (banciau bwyd, prydau ysgol am ddim). Teuluoedd sy'n byw o dan y llinell dlodi – pa gymorth gofal cymdeithasol sydd ei angen arny'n nhw?</p> <p><b>Strwythur y teulu:</b> mwy o aelwydydd un person, teuluoedd rhiant sengl, teuluoedd wedi'u cyfuno (adluniedig), ystadegau ysgariad.</p> <p><b>Patrymau gweithio:</b> isafswm cyflog, contractau dim oriau, gweithio o'r cartref. Sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar fywyd teuluoedd a chymorth gofal plant?</p> <p><b>Amlddiwylliannaeth:</b> yr effaith gadarnhaol ar addysg, busnes, cynllunio trefol, y celfyddydau a chwaraeon. Edrych ar newidiadau lleol a phenderfynu pa effaith mae amrywiaeth ac amlddiwylliannaeth wedi'i chael ar ddarpariaeth gofal plant.</p>	<p>Dysgwyr i edrych ar fframweithiau lleol ar gyfer gofal yr henoed. Age Cymru, Age Connects Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru (gig.cymru)</p> <p><a href="#">Nodiadau Cymdeithaseg</a></p> <p>Adnoddau Hwb: unigrwydd ac ynysu cymdeithasol <a href="#">Swyddfa Ystadegau Gwladol: data am oed, demograffeg, ac ati</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.2 (c) Natur newidiol darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau i'r gweithlu</p>	<p><b>Dylai dysgwyr ddeall pa newidiadau newydd sydd wedi'u gweithredu drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – llais cryfach, rheolaeth dros y cymorth sydd ei angen ar unigolyn i gael gwared ar rwystrau i ofal (cynorthwyr personol, taliadau uniongyrchol, dull cydweithredol).</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr ddeall y pwyslais cynyddol ar ymyrryd yn gynnar a mesurau ataliol a pham maen nhw'n bwysig (atal argyfwng, hybu buddsoddi adnoddau yn y tymor byr).</b></p> <p><b>Newidiadau i'r gweithlu:</b> rôl newidiol fferyllwyr cymunedol, parafeddygon, a gweithwyr cymdeithasol o ran iechyd ataliol. Rolau newydd Presgripsiynydd Cymdeithasol ac Asiant Cymunedol. Rolau ymarferwyr uwch a sgiliau estynedig i weithwyr proffesiynol anfeddygol.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Sut mae'r rolau newydd hyn yn cyfateb i'r newidiadau sydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014? Dysgwyr i ymchwilio i rolau newydd mewn iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p><b>Amodau i weithwyr gofal:</b> o'r blaen – tâl isel, contractau dim oriau, llwyth gwaith trwm, dim tâl am amser teithio, ymweliadau gofal 15 munud, hyfforddiant gwael. Newidiwyd i – defnydd cyfyngedig o gontractau dim oriau, talu'r isafswm cyflog, ymweliadau gofal 30 munud.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Sut mae hyn wedi bod o fudd i'r unigolion sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol gan ofalwyr?</p>	<p><a href="#">Gobeithion</a></p> <p><a href="#">Sgiliau ar gyfer gofal</a></p> <p><a href="#">Cyfweiliadau â gweithwyr gofal cymdeithasol</a></p>



Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Dysgwyr i ddeall sut mae'r dulliau canlynol wedi newid a gwella'r canlyniadau i unigolion:</b></p> <p><b>Cydgynhyrchu a chydweithredu, dulliau timau amlddisgyblaethol.</b></p> <p>Dulliau <b>person-ganolog</b>.</p> <p><b>Mwy na Geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol</b> – sut mae'r Cynnig Rhagweithiol yn ffitio yn y fframwaith Mwy na Geiriau.</p> <p><b>Beth yw goblygiadau'r newidiadau i weithwyr proffesiynol?</b></p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Dylai dysgwyr, lle mae'n bosibl, siarad â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cofnodi eu safbwyntiau ar y newidiadau diweddar. Dylen nhw ymchwilio i welliannau yn yr amodau gwaith a'r telerau cyflogaeth, cyfeirio at gyd-gynhyrchu (gweithio gydag unigolion ar ganlyniadau person-ganolog), cyfranogiad rhanddeiliaid, cyfathrebu eglur, dysgu o arbenigedd a'r hyn sy'n gweithio'n dda, defnyddio'r dull 'beth sy'n bwysig' gydag unigolion.</p>	<p><a href="#">Cydgynhyrchu</a></p> <p><a href="#">Fideo MDT</a></p>

## 2.6.3 Rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion agored i niwed Nghymru

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
<p>2.6.3 (a) Rôl deddfwriaeth gyfredol a mentrau'r llywodraeth i ddiogelu a gwella gofal a chymorth oedolion agored i niwed Nghymru</p>	<p><b>Dylai dysgwyr adeiladu ar wybodaeth flaenorol er mwyn esbonio sut mae gweithdrefnau diogelu'n amddiffyn oedolion agored i niwed.</b></p> <p><b>Dylai dysgwyr allu disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a chyrrff sy'n darparu gofal i oedolion er mwyn eu diogelu, gan gynnwys:</b></p> <p><b>Adnabod camdriniaeth/niwed:</b> dysgwyr i restru arwyddion camdriniaeth a beth gallen nhw ei nodi.</p> <p><b>Adrodd:</b> dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o broses atgyfeirio oedolion agored i niwed a dylen nhw edrych ar weithdrefnau awdurdodau lleol er mwyn gwneud hynny, gan nodi pwy yw'r swyddog diogelu dynodedig.</p> <p><b>Cofnodi:</b> dylai dysgwyr ddangos ymwybyddiaeth o weithdrefnau diogelu data, cyfrinachedd a Rheoleiddio Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a sut maen nhw'n rhoi mwy o reolaeth i unigolion dros ddata personol. Dylid ystyried yr egwyddorion isod, a deall y termau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder</li> <li>• cyfyngu ar bwrsasau</li> <li>• lleihau data</li> <li>• manwl gywirdeb</li> <li>• cyfyngu ar storio</li> <li>• uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)</li> <li>• atebolrwydd</li> </ul>	<p>Diogelu:</p> <p><a href="#">Gofal Cymdeithasol Cymru</a></p> <p><a href="#">Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth</a></p>

Maes cynnwys	Dulliau addysgu/dysgu	Adnoddau
	<p><b>Eiriolaeth:</b> dylai dysgwyr allu esbonio rôl yr eiriolwr mewn iechyd a gofal cymdeithasol a nodi cyrff sy'n darparu gwasanaeth eiriolaeth i oedolion agored i niwed.</p> <p><u>Gweithgaredd posibl:</u></p> <p>Ym mha amgylchiadau mae gwasanaethau eiriolaeth yn hanfodol i unigolion?</p>	

DRAFT

## **ADNODDAU DEFNYDDIOL**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Adnoddau Hwb (U2/UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymdeithaseg)

Social Care TV (clipiau fideo o senarios byw)

Llyw.Cymru (Iechyd a Gofal Cymdeithasol – strategaeth, gweithlu, diwedd oes)

Wales.NHS.uk (cyflyrau iechyd, poblogaeth, ffordd o fyw)

Prospects.ac.uk (gwybodaeth am yrfaeod mewn iechyd a gofal cymdeithasol)

Swyddfa Ystadegau gwladol (ystadegau am y boblogaeth sy'n heneiddio, safonau byw, ystadegau lleol am oedran, incwm, cyfraddau marwolaethau)

**\*Nodwch y bydd adnoddau ychwanegol ar gael yn rheolaidd felly cyfeiriwch at wefan HCLW i gael diweddariadau.**

## 6. ASESIAID DI-ARHOLIAD

Asesir Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 drwy asesiadau di-arholiad.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn darparu mwy o fanylion am drefniadau'r asesiadau di-arholiad. Ewch i wefan JCQ, [www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk), am ragor o wybodaeth. Yn ogystal, cyflwynir manylion y trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad yn eglur yn y fanyleb (tudalennau 74 – 77).

Wrth roi'r tasgau i ymgeiswyr, mae'n dderbyniol i ymgeiswyr gael copi o'r cynllun marcio. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr i weld y gofynion sydd ym mhob tasg ac sut yn union caiff y marciau eu dyfarnu. Byddai copïau o gynnwys y fanyleb hefyd yn ddefnyddiol i ymgeiswyr o ran ymdrin â'r cynnwys a'r derminoleg.

**Ni** ddylid rhannu deunyddiau enghreifftiau a ddarperir gan CBAC neu waith ymgeiswyr blaenorol ag ymgeiswyr yn y garfan gyfredol. Mae hyn yn aml yn codi mewn materion llên-ladrad a chamymddwyn. Bwriad y deunyddiau enghreifftiau a ddarperir gan CBAC yw helpu athrawon wrth gyflwyno ac asesu'r unedau.

### Tasgau

Cyflwynir y tasgau i'w hasesu yn Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 yn Atodiad B y fanyleb.

Mae'n rhaid cwblhau dwy dasg ar gyfer pob uned; bydd y rhain yn aros yr un fath tra bydd y fanyleb hon ar waith, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes neu grŵp targed sydd o ddiddordeb penodol iddynt. Fodd bynnag, dylid nodi, ar gyfer Uned 2, Tasg 2, y bydd cyd-destun y dasg yn newid bob blwyddyn. Bydd y cyd-destun newydd yn cael ei roi drwy wybodaeth wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ar 1 Rhagfyr y flwyddyn academaidd. Does dim rheoliadau ynghylch pryd gall tasgau asesu di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu'n fewnol yn ystod y cwrs, fodd bynnag, yng nghyfes yr haf yn unig y mae cymedroli allanol ar gael.

Mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw dasgau asesu di-arholiad.
- rhaid rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynghylch camymddwyn
- ni ddylai ymgeiswyr ymddwyn mewn ffordd annheg wrth baratoi gwaith ar gyfer TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- rhaid i ymgeiswyr gyfeirnoddi'r wybodaeth sydd o ffynonellau wedi'u cyhoeddi ac ni ddylent lôn-ladrata deunydd arall; dylent wybod bod copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol
- rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuan o gamymddwyn sydd ganddyn nhw
- rhaid i'r gwaith asesu di-arholiad gael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw
- mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi ffurflen i ddatgan mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

## Yr amser sydd ar gael ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Does dim gofyniad nac argymhelliad ar gyfer nifer y geiriau na'r tudalennau mewn tasgau Asesiad Di-arholiad.

Dylai dysgwyr dreulio tua 30 awr ar eu Tasgau Asesu Di-arholiad ar gyfer Uned 2 (10 awr ar Dasg 1, 20 awr ar Dasg 2) a thua 40 awr ar eu Tasgau Asesu Di-arholiad ar gyfer Uned 4 neu Uned 6 (20 awr ar bob tasg). Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gwneud gwaith ymchwilio ar gyfer Uned 2, Uned 4 ac Uned 6 y tu allan i'r amser goruchwyllo, ac ni ddylid ei gofnodi i gyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod. Rhaid i'r holl waith, heblaw am y gwaith ymchwilio, gael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac mae'n cyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod.

## Goruchwyllo a Monitro Asesiad Di-arholiad

- Yn ystod y cyfnod ysgrifennu, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen er mwyn lleihau'r risg o gamymddwyn.
- **Nid oes** rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Gellir cwblhau gwaith ymchwil y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd. Y tu allan i'r ganolfan, gall ymgeiswyr:
  - gael mynediad anghyfyngedig at adnoddau electronig ac argraffedig
  - defnyddio'r rhyngwrwyd heb gyfyngiadau.
- Yn ystod cyfnod ysgrifennu eu hasesiad di-arholiad, nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngwrwyd. Mae hawl gan ymgeiswyr i gael mynediad at adnoddau electronig ac argraffedig a'u nodiadau eu hunain a gasglwyd yn ystod eu gwaith ymchwil. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ganolfan sicrhau:
  - bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn i'r gwaith allu cael ei ddilysu
  - mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.

### Cyn yr asesiad di-arholiad, caiff athrawon:

- gynnig arweiniad a chefnogaeth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y tasgau asesu di-arholiad, yr asesiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig
- cynghori ymgeiswyr ar ba mor addas yw'r unigolyn sydd wedi'i ddewis ar gyfer eu tasg Uned 2 neu'r lleoliad sydd wedi'i ddewis ar gyfer eu tasg Uned 4/Uned 6, o ran y cyfle i'r gwaith terfynol fodloni'r holl ofynion asesu perthnasol.

### Pan fydd y gwaith ar y gweill:

- rhaid i'r adborth gael ei gyfyngu i gyngor cyffredinol ar yr hyn y gellir ei wella, h.y. arweiniad cyffredinol i'r grŵp/i'r garfan, **nid** arweiniad penodol i ymgeiswyr unigol
- ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn
- ni chaiff athrawon gywiro neu addasu gwaith ymgeisydd neu roi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn cael marciau uwch
- caniateir i ddysgwyr gyrchu adnoddau a all gynnwys gwybodaeth gafodd ei chasglu y tu allan i'r ysgol/coleg; er enghraifft, yn rhan o'u gweithgareddau ymchwilio dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y dasg asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio'r amser a argymhellir ar bob tasg.

Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

### **Dilysu**

Rhaid i waith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw, drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan unwaith y cyflwynir y dystiolaeth
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

DRAFT

## Uned 2, Tasg 1 – amser a awgrymir: 10 awr

Mae ymarferwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cydweithio o fewn canllawiau deddfwriaethol i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lunio adroddiad sydd yn:

- (a) Amlinellu rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl **dau** ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru.
- *Gellir dewis y rolau swyddi o'r rhestr a roddir yn 2.2.2 (c); fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, a gellir dewis rolau swyddi eraill priodol – os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â'r Swyddog Pwnc.*
  - *Ni ddylai'r rolau swyddi a ddewisir fod yn rhy debyg, e.e. dau fath gwahanol o nyrs.*
  - *Os oes modd, dylai ymgeiswyr ddewis ymarferwyr o sectorau gwahanol.*
  - *Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu crynodebau'n bodloni tri gofyniad y dasg – rôl swydd, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl.*
- (b) Trafod sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoleiddio cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yn cael eu darparu yng Nghymru.
- *Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth, mentrau a rheoleiddiadau fel y'u nodir yn y fanyleb.*
  - *Dylid ymdrin â phob un o'r tair agwedd ar yr adran hon.*
- (c) Yn canolbwyntio ar **ddau** ymarferwr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant, ac:
- (i) ar gyfer **un** o'r ymarferwyr, yn esbonio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 2.2.2 (c) (a)
- *Dylai ymgeiswyr ddewis **un** o'r ymarferwyr a ddewison nhw o Dasg (a) i gwblhau'r adran hon.*
  - *Dylent ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau priodol y byddai'r ymarferwr yn eu defnyddio yn ei waith o ddydd i ddydd.*
  - *Dylent ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai'r ymarferwr gymhwyso'r rhain i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.*
  - *Gallai ymgeiswyr ddefnyddio amrywiaeth o unigolion er mwyn rhoi enghreifftiau yn eu hatebion i'r ddwy adran.*
- (ii) ar gyfer yr ymarferwr **arall**, yn esbonio:
- *yr egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w arferion gwaith, a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso*
  - *sut mae'r ymarferwr yn gweithio yn rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. 2.2.2 (b) (d)*



Yn yr adran hon, **rhaid** i ymgeiswyr ganolbwyntio ar yr ymarferwr **arall** a ddewiswyd yn Nhasg (a).

- Rhaid i ymgeiswyr ymdrin â sut gall yr ymarferwr gymhwyso amrywiaeth o egwyddorion gofal a gwerthoedd craidd sy'n sail i'w harferion gwaith a sut mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd hyn yn bwriadu sicrhau bod gofal person-ganolog/plentyn-ganolog o ansawdd uchel yn cael ei roi.
- Rhaid i ymgeiswyr esbonio'r ffyrdd y mae'r ymarferwr yn gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol a'r partneriaethau eraill a nodwyd, yn ogystal â gyda'r unigolyn, a sut mae'r ymgysylltu hwn ag eraill yn helpu'r unigolyn i gyflawni canlyniadau personol.
- Gallai ymgeiswyr ddefnyddio amrywiaeth o unigolion er mwyn rhoi enghreifftiau yn eu hatebion i'r ddwy adran.

DRAFT

## Uned 2, Tasg 2 – amser a awgrymir 20 awr

**Er y bydd fformat a chynnwys y dasg yn aros yr un fath tra bydd y fanyleb hon ar waith, mae'n bwysig nodi y bydd cyd-destun y dasg yn gwahaniaethu. Bydd gwybodaeth wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn gosod cyd-destun y dasg bob blwyddyn.**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i unigolion sy'n cynllunio gyrfya yn y dyfodol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

Gellir cyflwyno'r gwaith mewn amrywiol fformatau:

- cyflwyniad
- blog
- ffeithlun

neu gyfuniad o'r rhain.

Mae'n rhaid i waith yr ymgeiswyr fod yn gysylltiedig ag unigolion o'u dewis eu hunain sydd ag anghenion penodol.

*Gall ymgeiswyr ddewis unigolyn o unrhyw adran o'r rhychwant oes. Gall yr enghreifftiau gynnwys: plentyn mewn grŵp oedran a enwir sydd â chyflwr penodol; person ifanc sydd â phroblemau caethiwed neu anhwylder bwyta; rhiant sengl; oedolyn hŷn sy'n methu ymdopi gartref. Gellir rhoi arweiniad yma i helpu i sicrhau bod gan ymgeiswyr ddigon o gyfle i fodloni gofynion y dasg.*

Rhaid i waith yr ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

- (a) Esboniad o sut gellid nodi ac asesu **dau** o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. 2.2.1 (c)

*Bydd disgwyl i ymgeiswyr nodi amrywiaeth o anghenion i'r unigolyn a ddewiswyd ac yna manylu ar sut mae dau o'r anghenion hyn yn cael eu nodi a'u hasesu.*

- (b) Amlinelliad o sut gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch. 2.2.1 (a) (b)

*Dylai ymgeiswyr amlinellu'r strategaethau, gan ddangos dealltwriaeth o ystyr 'cryfderau' a gwydnwch.*

*Mae angen iddyn nhw esbonio sut mae ymarferwyr yn gallu defnyddio'r strategaethau i helpu'r unigolyn a ddewiswyd i nodi ei gryfderau er mwyn cyflawni canlyniadau personol a hybu gwydnwch yr unigolyn.*

- (c) Archwiliad o'r ffyrdd y gellir cefnogi'r unigolyn i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol. 2.2.1 (ch)

*Mae angen i ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o ffyrdd y gellir helpu'r unigolion a ddewiswyd i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol, gan gynnwys cyfeiriad at sut mae'r canlyniadau'n cael eu cofnodi, asesu parhaus ac adfyfrio.*

- (ch) Mewn perthynas â'r unigolyn, amlinelliad o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant berthnasol yng Nghymru, ac ystyriaeth o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yn y DU. 2.2.3 (b)

*Mae angen i ymgeiswyr amlinellu strwythur a natur newidiol y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant y gall yr unigolyn ei ddefnyddio yng Nghymru. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at wasanaethau penodol – yn lleol ac yn genedlaethol.*

*Dylai'r rhan sy'n ystyried sut mae'r ddarpariaeth yn cyferbynnu â gwledydd eraill yn y DU (gellir canolbwyntio ar un wlad) gynnwys cyfeiriad at wasanaethau o ran deddfwriaeth a pholisïau, sut gall y strwythur amrywio, y meini prawf ariannu a chymhwyso, a chanlyniadau datganoli. Dylid annog ymgeiswyr i roi barn feirniadol ond gwrthrychol ar y canfyddiadau o ran yr unigolyn o'u dewis.*

- (d)** Esboniad o gynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. 2.2.3 (b)

*Dylai ymgeiswyr gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio, gan roi enghreifftiau lle mae'n bosibl:*

- *y Nod Pedwarplyg ar gyfer Cymru Iachach*
- *amrywiaeth o heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth iechyd a gofal a gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys rhwystrau i gael gofal a sut mae'n bosibl eu goresgyn*
- *sut gall cyfrifoldebau unigolion helpu i gefnogi cynaliadwyedd y ddarpariaeth.*

- (dd)** Esboniad o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth/polisi penodedig ac asesiad o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn. 2.2.4 (a) (b)

*Mae angen i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dulliau seiliedig ar hawliau ac esbonio sut maen nhw wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth/polisi perthnasol.*

*Mae angen i ymgeiswyr asesu, gan roi enghreifftiau:*

- *sut mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau yn gysylltiedig â'i gilydd*
- *sut mae'r dulliau seiliedig ar hawliau yn y ddeddfwriaeth a'r polisïau penodol yn effeithio ar yr unigolyn o'u dewis ac ar y darparwr gofal a chymorth.*

## Uned 4

### Adnoddau ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector gofal plant yn y dyfodol

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i dyfu a datblygu mewn amgylchedd iach a diogel. Nod darpariaeth gofal plant yng Nghymru yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed a hybu a chefnogi eu datblygiad.

Mae'r aseiniad yn gofyn i ymgeiswyr ymchwilio i sut i gefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru a chynhyrchu adnoddau ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r asesiad hwn wedi'i rannu'n ddwy dasg.

### Uned 4, Tasg 1 – amser a awgrymir: 20 awr

Mae'r dasg gyntaf yn seiliedig ar leoliad gofal plant penodol (yng Nghymru) o ddewis yr ymgeiswyr eu hunain.

*Gall y lleoliadau gofal plant gynnwys:*

- *meithrinfeydd dydd*
- *ysgol feithrin breifat*
- *ysgolion meithrin wedi'u cynnal (gan yr awdurdod lleol)*
- *gwarchodwyr plant ac asiantaethau gwarchodwyr plant*
- *nani neu ofalwyr plant yn y cartref*
- *cylchoedd cyn-ysgol a chylchoedd chwarae*
- *ysgolion annibynnol*
- *clybiau y tu allan i'r ysgol*
- *gofal preswyl*

*Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.*

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu cyflwyniad, wedi'i osod yn y lleoliad gofal plant penodol o'u dewis (yng Nghymru), sydd yn:

- (a)** Esbonio pwysigrwydd gofal plentyn-ganolog wrth fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau datblygu allweddol. 2.4.1 (a)

*Dylai ymgeiswyr gyfeirio at pam mae'n bwysig bod anghenion pob agwedd ar ddatblygiad y plant/pobl ifanc yn y lleoliad o'u dewis yn cael eu bodloni. Dylai hyn gynnwys yr effeithiau posibl ar y plant/pobl ifanc os nad yw'r anghenion hyn yn cael eu bodloni.*

*Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau i esbonio sut mae modd cymhwyso gofal plentyn-ganolog yn y lleoliad o'u dewis er mwyn bodloni'r anghenion hyn.*

- (b)** (i) Disgrifio'r mathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall plentyn a/neu berson ifanc eu profi. 2.4.1 (b)

*Dylai ymgeiswyr ddisgrifio amrywiaeth o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall y plant/pobl ifanc yn y lleoliad o'u dewis fod wedi'u profi. Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau o bob un o'r tri ffactor.*

- (ii) Esbonio sut gall y rhain effeithio ar wydnwch a datblygiad y plentyn a/neu'r person ifanc, a'u gofal a'u cymorth yn y lleoliad o'u dewis. 2.4.1 (b)

*Mae angen i ymgeiswyr esbonio sut gallai'r trawsnewidiadau, y profiadau bywyd a'r newidiadau mewn bywyd a ddisgrifiwyd gael effeithiau cadarnhaol a negyddol hefyd ar wydnwch a datblygiad y plant/pobl ifanc yn y lleoliad o'u dewis.*

*Mae angen i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwydnwch a datblygiad y plant/pobl ifanc ac esbonio sut gall hyn effeithio ar y gofal a'r cymorth y byddai angen eu darparu yn y lleoliad gofal o'u dewis – gall gyfeirio at faterion staffio, meintiau dosbarthiadau, anghenion gwahanol y plant/pobl ifanc.*

- (c) Esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio yn y lleoliadau o'u dewis, i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i fodloni anghenion sylfaenol a phenodol plant a/neu bobl ifanc. 2.4.1 (ch)

*Dylai ymgeiswyr ymdrin â'r canlynol:*

- *y mathau gwahanol o asesu a ddefnyddir yn y lleoliad o'u dewis a'u pwrpas ar gyfer plant/pobl ifanc unigol*
- *pum elfen asesu fel y'u nodir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a (Cymru) 2014 a rheoliadau cysylltiedig*
- *cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros blant/pobl ifanc sydd angen gofal a chymorth*
- *yr egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant/pobl ifanc a'u teuluoedd*
- *sut gellir defnyddio'r asesiadau hyn i roi cymorth priodol ac amserol i blant/pobl ifanc i ohirio'r defnydd o ofal wedi'i reoli.*

- (ch) Nodi'r rhwystrau y gall plant neu bobl ifanc eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal a chymorth yn y lleoliad o'u dewis. 2.4.1 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rwystrau a wynebir gan blant neu bobl ifanc sydd ag angen defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, gan roi enghreifftiau o'r rhai sy'n briodol i'r lleoliad gofal o'u dewis.*

- (d) (i) Disgrifio pam y gallai rhai plant a phobl ifanc fod ag anghenion gofal cymhleth. 2.4.1 (c)

*Dylai ymgeiswyr ddisgrifio pam gallai rhai plant/pobl ifanc fod ag anghenion gofal cymhleth a all fod yn anghenion corfforol, gwybyddol, emosiynol, synhwyraidd neu ychwanegol, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gyflyrau sy'n briodol i'r lleoliad o'u dewis.*

- (ii) Esbonio sut y gellir deall anghenion gofal cymhleth ac ymateb iddynt (yn y lleoliad o'ch dewis) er mwyn darparu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n cefnogi plant a/neu bobl ifanc i gyflawni canlyniadau personol. 2.4.1 (c)

*Dylai ymgeiswyr esbonio amrywiaeth o ffyrdd y mae'r lleoliad o'u dewis yn nodi ac yn cefnogi anghenion cymhleth y plant/pobl ifanc drwy ofal plentyn-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a sut gall y cymorth hwn helpu'r plant/pobl ifanc i gyflawni canlyniadau personol.*

## Uned 4, Tasg 2 – amser a awgrymir: 20 awr

Caiff cyd-destun i'w ryddhau ymlaen llaw ar gyfer y dasg hon ei ryddhau ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn a chaiff ei ddangos mewn cell wedi'i thywyllu fel y dangosir yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

Bwriad **Dechrau'n Deg** yw diogelu a gwella gofal plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd rhan o'ch asesiad di-arholiad ar gyfer Uned 4 yn cyfeirio at **Dechrau'n Deg**.

**Mae'n hanfodol bod canolfannau yn cael mynediad at y deunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y cyd-destun cywir bob blwyddyn.**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lunio adroddiad sydd yn:

- (a) Archwilio materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. 2.4.2 (a)

*Gan mai AA3 yw hwn, dylai ymgeiswyr allu dadansoddi a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddangos sut mae'r materion polisi cymdeithasol a nodir yn y fanyleb yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.*

*Dylai ymgeiswyr gynnwys cydnabyddiaeth o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu ymdrin â'r materion hyn.*

- (b) Esbonio newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru a goblygiadau'r newidiadau hyn ar rolau ymarferwyr yn y sector. 2.4.2 (c)

*Dylai ymgeiswyr esbonio amrywiaeth o newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru a sut gall y newidiadau hyn effeithio ar rolau amrywiaeth o ymarferwyr a nodwyd mewn lleoliadau gwahanol.*

- (c) (i) Disgrifio pwysigrwydd diogelu wrth amddiffyn plant a phobl ifanc. 2.4.3 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion diogelu a pham mae'n angenrheidiol ac yn bwysig o ran diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth.*

- (ii) Disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc ac ystyried sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer. 2.4.3 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau sy'n rhoi gofal i blant a phobl ifanc.*

*Ar gyfer adran AA3 y dasg hon, mae angen i ymgeiswyr feddwl am gyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a chyfrifoldebau sefydliadau a rhoi enghreifftiau o sut gall hyn ddylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gwahanol.*

- (iii) Trafod nodau a rôl y darn penodol o ddeddfwriaeth neu'r fenter i ddiogelu a gwella gofal plant a phobl ifanc yng Nghymru. 2.4.3 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodau a rolau'r ddeddfwriaeth neu'r fenter benodol (a roddwyd yn y cyd-destun). Yn eu trafodaeth, dylai ymgeiswyr roi barn/safbwyntiau wedi'u rhesymu ynghylch sut mae'r ddeddfwriaeth neu'r fenter benodol yn diogelu ac yn gwella gofal plant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn iddyn nhw gyflawni canlyniadau personol.*

- (ch) Asesu sut mae natur newidiol cymdeithas yn effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru. 2.4.2 (b)

*Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau o sut mae natur cymdeithas yn newid, gan roi rhesymau dros y newidiadau hyn.*

*Yn eu hasesiad o effaith natur newidiol cymdeithas ar y sector gofal plant yng Nghymru, dylai ymgeiswyr ystyried yr agweddau cadarnhaol a'r rhai negyddol hefyd.*

## Uned 6

### Adnoddau ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol

Mae gan bob unigolyn hawl i fyw mewn amgylchedd iach a diogel. Nod y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw diogelu unigolion rhag niwed, a hybu a chynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r aseiniad yn gofyn i ymgeiswyr ymchwilio i sut i gefnogi a chynnal iechyd, llesiant a gwydnwch oedolion yng Nghymru a chynhyrchu adnoddau ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r asesiad hwn wedi'i rannu'n ddwy dasg.

### Uned 6, Tasg 1 – amser a awgrymir: 20 awr

Mae'r dasg gyntaf yn seiliedig ar leoliad iechyd a gofal cymdeithasol oedolion (yng Nghymru) o ddewis yr ymgeiswyr eu hunain.

Gall y lleoliadau gynnwys:

- ysbyty cyffredinol
- ysbyty arbenigol
- ysbytai ardal – gwella a/neu adsefydlu
- cartref nyrsio
- gofal preswyl
- canolfannau dydd
- cartref yr oedolyn ei hun

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu cyflwyniad, wedi'i osod yn y lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol oedolion penodol o'u dewis (yng Nghymru), sydd yn:

- (a) Esbonio:
- sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau 2.6.1 (a)
  - pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth fodloni anghenion oedolion. 2.6.1 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a phwysigrwydd bodloni anghenion oedolion yn y lleoliad o'u dewis.*

*Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau i esbonio sut mae modd cymhwyso gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y lleoliad o'u dewis er mwyn bodloni anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol oedolion. Dylai hyn gynnwys yr effeithiau posibl ar yr oedolion os nad yw'r anghenion hyn yn cael eu bodloni.*

- (b) (i) Disgrifio'r mathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall oedolyn eu profi. 2.6.1 (c)

*Dylai ymgeiswyr ddisgrifio amrywiaeth o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall oedolion yn y lleoliad o'u dewis fod wedi'u profi. Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau o bob un o'r tri ffactor.*



- (ii) Esbonio sut mae'r rhain yn effeithio ar anghenion gofal a chymorth oedolion yn y lleoliad o'u dewis. 2.6.1 (c)

*Mae angen i ymgeiswyr esbonio sut gallai'r trawsnewidiadau, y profiadau bywyd a'r newidiadau mewn bywyd a ddisgrifiwyd gael effeithiau cadarnhaol a rhai negyddol hefyd ar wydnwch a datblygiad oedolion yn y lleoliad o'u dewis.*

*Mae angen i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwydnwch a datblygiad oedolion ac esbonio sut gall hyn effeithio ar y gofal a'r cymorth y byddai angen eu darparu yn y lleoliad gofal o'u dewis – gall gyfeirio at faterion staffio, adnoddau, anghenion gwahanol yr oedolion.*

- (c) Esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol i fodloni anghenion sylfaenol a phenodol oedolion. 2.6.1 (ch)

*Dylai ymgeiswyr ymdrin â'r canlynol:*

- *y mathau gwahanol o asesu a ddefnyddir yn y lleoliad o'u dewis a'u pwrpas ar gyfer oedolion gwahanol*
- *pum elfen asesu fel y'u nodir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a (Cymru) 2014 a rheoliadau cysylltiedig*
- *cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros oedolion sydd angen gofal a chymorth*
- *yr egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu oedolion*
- *sut gellir defnyddio'r asesuadau hyn i roi cymorth priodol ac amserol i oedolion sydd ag angen gohirio'r defnydd o ofal wedi'i reoli*
- *prif bwrpas cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth i oedolion*
- *y canlyniadau disgwylidig i'r cynlluniau hyn.*

- (ch) Nodi'r rhwystrau y gall oedolion yn y lleoliad o'u dewis eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal a chymorth. 2.6.1 (b)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rwystrau a wynebir gan oedolion sydd ag angen defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, gan roi enghreifftiau o'r rhai sy'n briodol i'r lleoliad gofal o'u dewis.*

- (d) (i) Amlinellu:

- *pam y gallai rhai oedolion fod ag anghenion gofal cymhleth*
- *dull cyfannol o ymdrin â gofal diwedd oes a gofal lliniarol. 2.6.1 (c)*

*Dylai ymgeiswyr amlinellu*

- *rhesymau pam y gallai rhai oedolion fod ag anghenion gofal cymhleth*
- *anghenion corfforol, gwybyddol, emosiynol, synhwyrdd neu ychwanegol oedolyn ag anghenion gofal cymhleth yn y lleoliad o'u dewis*
- *dull cyfannol o ymdrin â gofal diwedd oes/gofal lliniarol.*

- (ii) Esbonio sut gellir deall anghenion gofal cymhleth ac ymateb iddynt, a sut gellir goresgyn unrhyw rwystrau, yn y lleoliad o'u dewis, er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n cefnogi oedolion i gyflawni canlyniadau personol. 2.6.1 (c)

*Dylai ymgeiswyr esbonio:*

- *amrywiaeth o ffyrdd y mae'r lleoliad o'u dewis yn nodi ac yn cefnogi anghenion cymhleth oedolion i helpu i oresgyn rhwystrau a rhoi cymorth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau*
- *sut gall y cymorth hwn helpu'r oedolion i gyflawni canlyniadau personol.*

*Caiff ymgeiswyr ganolbwyntio ar gyflyrau/amgylchiadau penodol oedolion yn y lleoliad gofal o'u dewis.*

*DRAFT*

## Uned 6, Tasg 2 – amser a awgrymir: 20 awr

Caiff cyd-destun i'w ryddhau ymlaen llaw ar gyfer y dasg hon ei ryddhau ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn a chaiff ei ddangos mewn cell wedi'i thywyllu fel y dangosir yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

Nod **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** yw ymdrin â phryderon penodol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, ac i greu amodau cymdeithasol fydd yn cefnogi iechyd da. Bydd rhan o'r dasg Asesiad Di-arholiad ar gyfer Uned 6 yn cyfeirio at **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**.

**Mae'n hanfodol bod canolfannau yn cael mynediad at y deunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw i sicrhau bod ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y cyd-destun cywir bob blwyddyn.**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lunio adroddiad sydd yn:

- (a) Archwilio materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. 2.6.2 (a)

*Gan mai AA3 yw hwn, dylai ymgeiswyr allu dadansoddi a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddangos sut mae'r materion polisi cymdeithasol a nodir yn y fanyleb yn effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru.*

*Dylai ymgeiswyr gynnwys cydnabyddiaeth o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a gofal Cymdeithasol yn bwriadu ymdrin â'r materion hyn.*

- (b) Esbonio newidiadau yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a goblygiadau'r newidiadau hyn ar rolau ymarferwyr yn y sector. 2.6.2 (c)

*Dylai ymgeiswyr esbonio amrywiaeth o newidiadau yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a sut gall y newidiadau hyn effeithio ar rolau amrywiaeth o ymarferwyr a nodwyd mewn lleoliadau gwahanol.*

- (c) (i) Disgrifio pwysigrwydd diogelu wrth amddiffyn oedolion agored i niwed yng Nghymru. 2.6.2 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion diogelu a pham mae'n angenrheidiol ac yn bwysig o ran diogelu oedolion agored i niwed rhag niwed a chamdriniaeth.*

- (ii) Disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau sy'n darparu gofal i oedolion agored i niwed, ac ystyried sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer. 2.6.2 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau sy'n rhoi gofal i oedolion agored i niwed.*

*Ar gyfer adran AA3 y dasg hon, mae angen i ymgeiswyr feddwl am gyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a chyfrifoldebau sefydliadau a rhoi enghreifftiau o sut gall hyn ddylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gwahanol.*

- (iii) Trafod nodau a rôl y darn penodol o ddeddfwriaeth neu'r fenter i ddiogelu a gwella gofal oedolion agored i niwed yng Nghymru. 2.6.2 (a)

*Dylai ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodau a rolau'r ddeddfwriaeth neu'r fenter benodol (a roddwyd yn y cyd-destun). Yn eu trafodaeth, dylai ymgeiswyr roi barn/safbwyntiau wedi'u rhesymu ynghylch sut mae'r ddeddfwriaeth benodol yn diogelu ac yn gwella gofal oedolion agored i niwed yng Nghymru iddyn nhw gyflawni canlyniadau personol.*

- (dd) Asesu sut mae natur newidiol cymdeithas yn effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. 2.6.2 (b)

*Dylai ymgeiswyr roi enghreifftiau o sut mae natur cymdeithas yn newid, gan roi rhesymau dros y newidiadau hyn.*

*Yn eu hasesiad o effaith natur newidiol cymdeithas ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, dylai ymgeiswyr ystyried yr agweddau cadarnhaol a'r rhai negyddol hefyd.*

DRAFT

## 7. ARHOLIAD YSGRIFENEDIG

Bydd yr arholiad allanol yn cynnwys un papur ar gyfer pob uned (i'w sefyll ar bapur neu ar sgrin) a bydd pob un ohonyn nhw:

- yn cael ei osod a'i farcio gan CBAC
- yn asesu cynnwys yn yr uned benodol
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- yn cynnwys cwestiynau gorfodol
- yn asesu pob un o'r tri amcan asesu ym mhob cyfres
- yn asesu pob maes cynnwys ym mhob cyfres
- yn asesu pob adran o'r maes cynnwys tra bydd y fanyleb ar waith
- yn cyd-fynd â'r ystodau marciau canrannol a gytunwyd ar gyfer pob amcan asesu ym mhob fersiwn o'r arholiad
- yn defnyddio'r berfau gorchymyn a restrir yn y canllawiau hyn yn unig
- yn cael ei sefyll o dan reoliadau JCQ.

### Uned 1 (UG)

Bydd yr arholiad ysgrifenedig:

- yn cynnwys uchafswm o 80 marc
- yn 2 awr o hyd
- yn cael ei gyflwyno ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb
- yn cael ei raddio o A i E
- ar gael yng nghyfres yr haf o 2021 (UG) ymlaen.

### Uned 3 neu 5 (Safon Uwch)

Bydd yr arholiadau ysgrifenedig:

- yn cynnwys uchafswm o 100 marc
- yn 2 awr 30 munud o hyd
- yn cael eu graddio o A i E
- yn cael eu cyflwyno ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb mewn dwy adran: adran A (40 marc) ac adran B (60 marc) – mae cwestiynau adran A yn ymwneud â'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw
- ar gael yng nghyfres yr haf o 2022 (Safon Uwch) ymlaen.

## 8. ADNODDAU

Yn ogystal â'r adnoddau y mae eu manylion ym mhob uned, efallai bydd yr adnoddau canlynol yn ddefnyddiol wrth gyflwyno'r cymhwyster hwn:

Gwerslyfr TAG: <https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/llyfr-tag-ugsafon-uwch-hsc/>

Adnoddau Lefel 3: <https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/>

Gofal Cymdeithasol Cymru: <https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Gofal Cymdeithasol Cymru: Dysgu a Datblygu: <https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu>

Gofal Cymdeithasol Cymru: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle: <https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle>

Gofal Cymdeithasol Cymru: Diogelu: <https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu>

Adnoddau diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru: Hwb Gwybodaeth a Dysgu <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan>

Arolygiaeth Gofal Cymru: [https://arolygiaethgofal.cymru/?lang=en&\\_ga=2.146604471.2040594088.1606229241-878489664.1606229241](https://arolygiaethgofal.cymru/?lang=en&_ga=2.146604471.2040594088.1606229241-878489664.1606229241)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru: <https://icc.gig.cymru/>

Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Chyflenwi GIG Cymru: Gyrfaoedd GIG Cymru: [www.weds.wales.nhs.uk/gyrfaoedd-gig-cymru](http://www.weds.wales.nhs.uk/gyrfaoedd-gig-cymru)

Fforwm Gofal Cymru: <https://www.careforumwales.co.uk/?page=>

Llywodraeth Cymru: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: <https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>

Llywodraeth Cymru: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014: <https://llyw.cymru/rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-crynodeb>

Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-yr-hanfodion>

Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau: <https://llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-iechyd-mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-i-2020>

Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://icc.gig.cymru/>

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ymgyrchoedd Hybu Iechyd a Chydweithredu: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44945>

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Adverse Childhood Experiences: ACEs): <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504>

Y Coleg Nyrso Brenhinol: Beth yw ystyr gofal person-ganolog:

<https://rcni.com/hosted-content/rcn/first-steps/promoting-person-centred-care-andpatientsafety>

Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth: Cod Ymddygiad Proffesiynol:

<https://www.nmc.org.uk/standards/code/>

DRAFT

## 9. RHESTR TERMAU

Cam-drin	Caiff cam-drin ei ddiffinio fel unrhyw weithred sy'n niweidio neu'n anafu person arall yn fwriadol ac mae'n cynnwys cam-drin corfforol, emosiynol neu seicolegol, rhywiol ac ariannol, ac esgeuluso.
Atebolrwydd	Pan mae person neu sefydliad yn gyfrifol am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac mae disgwyl iddo roi rheswm boddhaol neu dderbyniol dros eu gweithredoedd.
Damwain	Digwyddiad annisgwyl neu heb ei gynllunio a all arwain at anaf neu anghenion gofal cymhleth neu ychwanegol.
Gweithgareddau a phrofiadau	Gweithgareddau chwarae, hamdden a dysgu sy'n bodloni hoff ddewisiadau ac anghenion a galluoedd y plentyn.
Gofal aciwt (iechyd)	Gofal iechyd aciwt yw lle mae claf yn cael triniaeth weithredol a thymor byr yn dilyn salwch, anaf neu wrth ymadfer ar ôl llawdriniaeth.
Gweinyddu meddyginiaeth	Rhoi a chofnodi meddyginiaeth, gan sicrhau bod y 'pum peth cywir' yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau gwallau a niwed: y claf cywir, y cyffur cywir, y dos cywir, y dull cywir a'r amser cywir.
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (Adverse Childhood Experiences ACEs)	Mae profiadau niweidiol yn ystod plentynodod yn cyfeirio at ddigwyddiadau negyddol neu brofiadau trawmatig sydd wedi digwydd ac sy'n gallu arwain at ganlyniadau sy'n para'n hir ac yn effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn.
Eiriolaeth	Mae eiriolwr yn cefnogi unigolion ac yn cynnig cyngor iddyn nhw. Pwrpas eiriolaeth yw galluogi unigolion i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau'n deg a chynnal eu hawliau dynol.
Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd	Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cynnwys amrywiaeth eang o rolau gofal iechyd proffesiynol, e.e. ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, ac ati.
Cydlynnydd ADY (ALNco)	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs Co-ordinator. Ei rôl yw goruchwyllo rhedeg polisi AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau) a chydlynu'r ddarpariaeth a wnaed i blant sydd ag AAAA.
Arfarnu	Arfarnu yw'r broses o asesu rhywun neu rywbeth er mwyn dod i farn neu er mwyn gwerthuso.
Asesiad o anghenion	Y broses o weithio allan beth yw anghenion unigolyn.
Damcaniaeth ymlyniad	Mae ymlyniad yn ddamcaniaeth a ddatblygodd seicolegwyr i esbonio sut mae plentyn yn rhyngweithio ag oedolion ac yn ffurfio perthnasoedd; mae'n ymwneud â ffurfio perthnasoedd emosiynol, diogel a chyson.
Rhwystrau i ofal	Mae rhwystrau i ofal yn cyfyngu ar unigolion rhag cael gofal a chymorth priodol, neu'n eu hatal rhag gwneud hynny. Y rhwystrau mwyaf cyffredin i ofal yw diffyg gwybodaeth, arian, lleoliad daearyddol, materion corfforol, seicolegol, iaith/cyfathrebu, diwylliannol.



Ymddygiad	Y ffordd y mae unigolyn yn gweithredu, yn enwedig tuag at eraill, ac mae'n cynnwys y ffordd y mae unigolyn yn ymddwyn wrth ymateb i sefyllfa neu ysgogiad.
Ymddygiad sy'n herio	Mae ymddygiad sy'n herio, neu ymddygiad heriol, yn cael ei ddiffinio fel ymddygiad annormal yn ddiwylliannol sydd mor ddwys fel bod diogelwch corfforol yr unigolyn neu bobl eraill mewn perygl.
Bondio	Mae'r bond rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn yn hanfodol i dwf a datblygiad plentyn drwy wella ansawdd bywyd y plentyn, rhyngweithio cadarnhaol a chyfathrebu.
Ffiniau (ymddygiad)	Ffiniau wrth reoli ymddygiad yw rheolau, canllawiau neu ddisgwyliadau derbyniol sy'n cyfyngu person i ymddygiad penodol a rhesymol.
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG (CAMHS)	Gwasanaethau arbenigol y mae'r GIG yn eu darparu i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sydd â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol fel iselder, anawsterau bwyta a gorbryder.
Gofal plant	Goruchwyllo plentyn neu blant, sy'n ymwneud â bodloni eu hanghenion cyfannol ym mhob un o feysydd eu twf a'u datblygiad.
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	Mae AGC yn cofrestru, yn archwilio ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
Dull plentyn-ganolog	Ystyr dull plentyn-ganolog yw canolbwyntio ar y plentyn wrth wneud penderfyniadau am ei fywyd a gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn a'i deulu. Mae'r dull hwn yn annog plant i gymryd yr awenau o ran eu dysgu drwy chwarae ac arbrofi gweithgar. Mae plant yn cymryd cyfrifoldeb dros yr hyn y byddan nhw'n edrych arno ac yn dysgu amdano.
Codau ymarfer/ymddygiad	Y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydrwagedd, gweithwyr nyrsio cysylltiol a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill eu cynnal er mwyn cael eu cofrestru i ymarfer yn y DU.
Cyfrinachedd	Diogelu gwybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ar sail 'dim ond y rhai sydd ag angen gwybod' yn unig. Mae cyfrifoldeb moesegol a chyfreithiol sy'n hanfodol wrth weithio gydag unigolion, plant a'u teuluoedd, i gynnal a chadw ac i ddiogelu'r wybodaeth am unigolion.
Cydsyniad	Cydsyniad neu gydsynio yw rhoi caniatâd i rywbeth ddigwydd neu gytuno i wneud rhywbeth.
Diwylliant	Syniadau, arferion, credoau ac ymddygiad cymdeithasol pobl neu gymdeithas benodol.
Datblygiad	Cyflwr penodol o dwf neu gynnydd yn y dilyniant o newidiadau corfforol, deallusol/gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol sy'n digwydd mewn unigolyn o'r adeg pan mae'n cael ei genhedlu drwy fabandod, plentyndod, glaslencyndod, oedolaeth i oedolaeth ddiweddarach.

Gwahaniaethu	Trin person arall yn wahanol ar sail lliw ei groen, ei grefydd, ei rywioldeb, ei gefndir, ac yn y blaen.
Amrywiaeth	Amrediad o bethau gwahanol neu wahaniaethau.
Dyletswydd gofal	Cyfrifoldeb moesol neu gyfrifoldeb sydd gan unigolion/sefydliadau i sicrhau diogelwch neu lesiant unigolion yn eu gofal.
Adnabod yn gynnar	Mae hyn yn ymwneud â gwerthuso ac ymateb i oediad yn natblygiad unigolyn neu blentyn sydd mewn perygl o fod ag AAAA (anghenion addysgol arbennig ac anabledd).
Addysg Blynyddoedd Cynnar	Mae'n ymwneud â dysgu ar gyfer plant rhwng 3 a 5 oed.
Amgylcheddau	Mewn lleoliadau gofal plant, byddai hyn yn ymwneud â darparu a threfnu lleoedd o dan do ac awyr agored, amrywiaeth yr adnoddau a'r ysgogiad i ddysgu.
Cydraddoldeb	Y cyflwr o fod yn gydradd i eraill o ran statws, tegwch, cyfleoedd a hawliau dynol.
Moeseg/moesegol	Gwerthoedd ac egwyddorion moesol sy'n ymwneud â gwybod beth sy'n dda neu'n gywir.
Fframwaith dysgu	Cwricwlwm neu gynllun dysgu wedi'i drefnu sy'n diffinio cynnwys a safonau'r hyn fydd wedi'i gynnwys yn y canlyniadau dysgu a'r dulliau asesu neu gyflawni.
Iechyd a diogelwch	Gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn atal damweiniau mewn amgylcheddau cyhoeddus.
Datblygiad cyfannol	Mae datblygiad cyfannol yn cyfeirio at yr unigolyn cyfan ac mae'r dull hwn yn ymdrin â'r agweddau corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol ar ddatblygiad.
Hydradiad	Yfed digon o hylifau i gadw'r lefelau hylif yn y corff yn uchel fel bod pob un o swyddogaethau'r corff yn gallu digwydd yn normal – er mwyn rheoleiddio tymheredd y corff, treulio bwyd ac ysgarthu gwastraff, er mwyn dod â dŵr yn lle'r hyn a gollwyd drwy chwysu a throethi.
Imiwneiddio	Mae imiwneiddio'n ffordd o amddiffyn rhag clefydau difrifol drwy frechiad (pigiad fel arfer, weithiau drwy'r geg).
Effaith	Dylanwad mawr.
Mentrau	Rhaglenni neu brosiectau penodol sy'n cael eu gwneud er mwyn cyflawni canlyniadau a nodwyd. Mae'n ddechrau rhywbeth i wneud gwelliannau.
Gweithiwr allweddol	Mae gweithiwr allweddol yn cymryd rôl y prif ofalwr ac yn gyfrifol am unigolion penodol mewn lleoliadau gofal, er mwyn sicrhau bod anghenion gofal ac addysg penodol yr unigolyn yn cael eu bodloni.
Dysgu	Y broses o gaffael gwybodaeth, ymddygiad, sgiliau newydd ac ati. Gwneud synnwyr o destun, digwyddiad neu deimlad.

Deddfwriaeth	Cyfraith neu set o gyfreithiau wedi'u pasio gan y senedd a'u gorfodi gan y llywodraeth. Disgrifir cyfreithiau fel rheolau wedi'u gwneud gan y senedd er mwyn trefnu'r ffordd y mae cymdeithas yn ymddwyn.
Dewisiadau ffordd o fyw	Penderfyniad personol neu ymwybodol o ran sut i fyw ac i ymddwyn, yn seiliedig ar agwedd, chwaeth, gwerthoedd a diddordebau.
Monitro	Y broses o arsylwi a gwirio cynnydd dros gyfnod o amser.
Gweithio amlasiantaethol	Gweithio mewn cydweithrediad ag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o sectorau gwahanol i ddarparu ffordd o weithio integredig ac i ymyrryd yn gynnar a rhoi cefnogaeth gynnar i unigolion, e.e. gofal cymdeithasol, addysg, gwaith ieuencid, yr heddlu, ac ati.
Gweithio amlasiantaethol	Tîm o staff o sawl cefndir a maes arbenigedd gwahanol, e.e. seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol ac ati, pob un yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'u cydlynu i weithio gyda'i gilydd tuag at set o nodau penodol.
Maeth	Y broses o gael y maeth a'r egni sydd eu hangen ar gyfer iechyd, twf a datblygiad, o fwyd.
Partneriaeth	Dau neu ragor o bobl sy'n rhannu nodau ac yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth.
Chwarae	Ymgysylltu â gweithgaredd er mwyn mwynhau a hamddena; gall fod yn fyrfyr neu wedi'i gynllunio.
Dull person-ganolog	Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar anghenion, chwantau, dymuniadau a nodau'r unigolyn fel eu bod nhw'n dod yn ganolog i'r broses gofal.
Polisi	Llwybr neu egwyddor gweithredu y mae sefydliad wedi'i nodi.
Ymagwedd positif	Galluogi unigolion i ymdrin yn effeithiol â gofynion a heriau sefyllfaoedd neu amgylcheddau.
Atal	Y weithred o atal rhywbeth rhag digwydd neu ddatblygu.
Egwyddorion	Y rheolau, gweithredoedd neu ymddygiadau sy'n dderbyniol ar gyfer unigolion.
Gweithdrefn	Cyfes o weithredoedd neu gamau i gyflawni nod neu dasg a bennwyd.
Ymarfer proffesiynol	Gwybodaeth o fewn proffesiwn penodol a chyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â dyletswyddau proffesiynol.
Atgyfeiriadau	Cyfeirio rhywun i le neu at berson gwahanol i gael gwybodaeth, cymorth neu gam gweithredu.
Gwydnwch	Y gallu i ddod dros anawsterau'n gyflym, er enghraifft amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu rai emosiynol.
Cyfrifoldebau	Yr hawliau, y dyletswyddau a'r pwerau cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac i wneud camau gweithredu.
Dulliau seiliedig ar hawliau	Parchu, amddiffyn a chyflawni egwyddorion hawliau dynol.
Risg	Y tebygolrwydd y gallai perygl a nodwyd achosi niwed.
Rôl	Swydd a chyfrifoldeb penodol.

Diogelu	Mae'n golygu mesurau i amddiffyn iechyd, llesiant a hawliau dynol plant ac oedolion i fyw'n rhydd oddi wrth gamdriniaeth, niwed ac esgeulustra.
Cofnod o Sgiliau Tyfu	Erfyn sgrinio i asesu cerrig milltir datblygiad mewn plant.
Cyfnodau datblygiad	Oedrannau a chamau datblygiad y plentyn. Mae plant yn mynd drwy gyfnodau gwahanol o ddatblygiad wrth dyfu o fod yn fabanod i fod yn oedolion ifanc, e.e. genedigaeth i 2 oed.
Cyfnodau chwarae	Damcaniaeth sy'n cynnwys camau chwarae segur, unig, gwyliwr/arsylwr, cyfochrog, cysylltiol a chydweithredol.
Straen	Teimlo neu fod o dan ormod o bwysau emosiynol neu feddyliol/teimlo fel petai rhywun yn methu ymdopi.
Y Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm i blant yng Nghymru, 3-7 oed, sy'n seiliedig ar ddarparu canlyniadau dysgu priodol o ran datblygiad.
Damcaniaeth	System o syniadau er mwyn creu esboniad sy'n seiliedig ar ymchwil neu ddamcaniaeth.
Trawsnewid	Newid neu ddilyniant o un peth i'r peth nesaf.
Mathau o chwarae	Mae mathau o chwarae'n cael eu creu drwy amgylcheddau a gwagleoedd chwarae amrywiol, e.e. creadigol, ymchwiliol, dychmygol, ac ati.
Gwerthoedd	Egwyddorion neu nodweddion sy'n werthfawr neu'n ddymunol, e.e. roedden nhw'n rhannu llawer o nodau a gwerthoedd.
Llesiant	Y cyflwr o fod yn gyfforddus, hapus neu iach.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod nhw'n ystyried yr effaith y gallen nhw ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.
Gofalwr ifanc	Person ifanc o dan 18 oed sy'n gyfrifol am ofalu am rywun. Efallai y byddan nhw'n gyfrifol am wneud gwaith tŷ a gofal personol, ac ati.